

# CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR LLEOL (LNRAP) ABERTAW

2023-2030



**PARTNERIAETH NATUR  
LLEOL ABERTAW**

**SWANSEA LOCAL  
NATURE PARTNERSHIP**

RYDYM MEWN

# ARGYFWNG NATUR

I gydnabod yr argyfwng ecolegol hwn, daeth y Senedd yn un o'r seneddau cyntaf yn y byd i ddatgan Argyfwng Natur ym mis Mehefin 2021. Cyhoeddodd Cyngor Abertawe hefyd Argyfwng Natur ym mis Tachwedd 2021.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru yw strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol Cymru. Mae'n nodi chwe amcan allweddol a phum thema gweithredu drosgynnol i gyfeirio camau adfer natur ar lefel genedlaethol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur yn Abertawe, crëwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (LNRAP) hwn gan Bartneriaeth Natur Leol (PNL) Abertawe. Mae'r Cynllun hwn yn disodli'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (cyhoeddwyd 2005).

Mae'n nodi blaenoriaethau lleol ar ffurf 'themâu gweithredu' (sy'n cyd-fynd â chwe amcan NRAP Cymru) i fynd i'r afael â dirywiad byd natur ac adfer byd natur yn Abertawe. Bydd partneriaid y Bartneriaeth Natur Leol yn defnyddio'r themâu gweithredu i arwain eu gwaith, a bydd cynnydd yn cael ei gofnodi'n flynyddol.

Fodd bynnag, **mae'r cynllun hwn ar gyfer pawb** - yn y cartref, yn yr ysgol, yn y gwaith neu yn eich cymuned - p'un a ydych yn gweithio ym maes cadwraeth natur ai peidio!



BETH YW

# LNRAP ABERTAWWE?

## Cyflwyniad i natur ac adfer byd natur.

Yn y tudalennau canlynol nodir pwysigrwydd natur ac adferiad byd natur a darperir gwybodaeth am gyflwr natur ar lefel fyd-eang, genedlaethol ac Abertawe.

## Canllaw i gydlynu camau adfer byd natur

Nesaf mae themâu gweithredu LNRAP Abertawe yn nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer adfer byd natur yng nghyd-destun amcanion cenedlaethol Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru. Bwriedir i'r rhain arwain ymagwedd gydlynol a chydlynol at yr argyfwng natur ar draws y sir.

## Cyfeirlyfr gwybodaeth am natur leol

Yna darperir gwybodaeth a dolenni i adnoddau eraill ar gynefinoedd a rhywogaethau yn Abertawe fel y gallwch ddysgu am rywfaint o fioamrywiaeth Abertawe.

## Ffynhonnell ysbrydoliaeth

Yn olaf, mae LNRAP Abertawe hefyd yn darparu rhoi syniadau ar gyfer yr hyn y gallwch ei wneud gartref, yn yr ysgol, yn y gwaith, yn eich cymuned, neu fel rhywun sy'n frwd dros fyd natur i gynorthwyo adferiad byd natur yn Abertawe.





@ Aaron Davies



CAFODD LNRAP ABERTAW E I


## GREU TRWY:

- Waith ymgysylltu ac adborth gan aelodau Partneriaeth Natur Leol Abertawe trwy weithdai, cyflwyniadau, cyfarfodydd chwarterol y PNL, ynghyd ag adborth ysgrifenedig ac awgrymiadau.
- Ystyried deddfwriaeth, polisiau a chynlluniau bydeang, cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, ynghyd ag ymgynghoriadau cyhoeddus perthnasol.
- Rhoi sylw i adroddiadau tystiolaeth perthnasol (e.e., Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ac eraill).
- Ystyried data lleol gan gynnwys cadernid cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau.

ER GWYBODAETH:

# Y CYD-DESTUN EHANGACH

AMCANION CENEDLAETHOL EANG: wedi'u llywio a'u cyfarwyddo gan ddeddfwriaeth genedlaethol a pholisïau/targedau byd-eang



HERIAU A CHYFLEOEDD RHANBARTHOL: yn nodi meysydd allweddol ar gyfer gweithredu



GWYBODAETH LEOL: yn cyfeirio blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu er amcanion cenedlaethol



Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal\*

Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

NRAP ar gyfer Cymru a Diweddariad 2020/21\*

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

Datganiad Ardal De-orllewin CNC

**CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR LLEOL (LNRAP) ABERTAWE**

Datganiad Ardal Forol CNC

Rhwydwaith PNL Cymru (cyngor ac arweiniad)

Partneriaid PNL Abertawe

Ymgynghoriadau Cymunedol Lleol Perthnasol\*\*

\*Bydd NRAP Cymru yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn polisi bioamrywiaeth byd-eang gan gynnwys cadarnhau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal yn 2022. Fodd bynnag, ar adeg cyhoeddi nid oedd NRAP Cymru wedi'i ddiweddarau eto i adlewyrchu'r polisi bioamrywiaeth byd-eang newydd.

\*\*Natur am Byth! Bae, Arfordiroedd, Tiroedd Comin a Chymunedau Abertawe - 2022 a Natur a Ni CNC - 2022



# PARTNERIAETH NATUR LLEOL ABERTAW

## SWANSEA LOCAL NATURE PARTNERSHIP

RHAI O'N PARTNERIAID..

**SEWBREC**  
SOUTH EAST WALES BIODIVERSITY RECORDS CENTRE  
CANOLFAN GOFNODION BIOAMRYWIAETH DE DDWYRAIN CYMRU



swansea community **FarmFferm**  
gymunedol abertawe

**Cyfoeth Naturiol Cymru**  
Natural Resources Wales

Swansea University  
Prifysgol Abertawe



Clyne Valley Community Project

**THE ORCHARD PROJECT**  
Bringing orchards into the heart of urban communities



Penllergare



*Cadwraeth, Cymuned, Hanes*  
*Conservation, Community, History*



Coeden Fach  
Community Tree Nursery

**GLAMORGAN BAT GROUP**  
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales Trinity Saint David



Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

amphibian and reptile conservation gwarchod amffibiaid ac ymlusgiaid

# PARTNERIAETH NATUR LEOL

## ABERTAW

Mae Partneriaeth Natur Leol Abertawe, a sefydlwyd ym 1999, yn grŵp gweithgar gyda chynrychiolwyr o lawer o sefydliadau gan gynnwys cyrff sector cyhoeddus perthnasol, sefydliadau cadwraeth trydydd sector, grwpiau cadwraeth gwirfoddol, tîrfeddiannwyr, a naturiaethwyr proffesiynol ac amatur. Daw'r partneriaid a'r unigolion ynghyd i rannu ddiddordeb mewn gwarchod, gwella a chodi ymwybyddiaeth o fyd natur yn Abertawe. Mae gan PNL Abertawe dros 50 o sefydliadau sy'n aelodau ac mae'n agored i unrhyw un ymuno.

## LNRAP ABERTAWE

**CONTENTS**

Mae natur yn bwysig .....	1	Cynefinoedd arfordirol .....	<u>43</u>
Cadernid ecosystem .....	2	Amgylchedd morol .....	<u>44</u>
Mae nature yn dirywio .....	3	Amgylchedd trfol .....	<u>45</u>
Trosolwg o natur yn Abertawe .....	4	Rhywogaethau o'r pwys mwyaf yn Abertawe .....	<u>46</u>
Cadernid Ecosystem yn Abertawe .....	6	Amlygu rhai o rywogaethau Abertawe .....	<u>47</u>
Mae natur yn abertawe mewn trafferth .....	7	Safleoedd arbennig .....	<u>49</u>
Themâu gweithredu LNRAP Abertawe .....	8	Beth galla i ei wneud? .....	<u>53</u>
Themâu gweithredu NRAP i gymru a themâu gweithredu		Gwneud lle i natur .....	<u>54</u>
datganiadau ardal .....	9	Rhowch gartref i natur .....	<u>55</u>
Themâu LNRAP - Amcan 1 .....	10	Gwylwch eich llygredd .....	<u>56</u>
Themâu LNRAP - Amcan 2 .....	14	Ymladd yr argyfwng hinsawdd .....	<u>57</u>
Themâu LNRAP - Amcan 3 .....	18	Os ydw i'n brin o le/Darganfod natur .....	<u>58</u>
Themâu LNRAP - Amcan 4 .....	23	Gosod esiampl: yn yr ysgol/Fel busnes .....	<u>59</u>
Themâu LNRAP - Amcan 5 .....	28	Yn fy nghymuned .....	<u>60</u>
Themâu LNRAP - Amcan 6 .....	32	Fel rhywun sy'n frwd dros natur .....	<u>61</u>
Nodyn ar adolygu a chofnodi .....	36	Termau technegol egluro .....	<u>62</u>
Trosolwg o gynefinoedd Abertawe .....	38	Rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau .....	<u>63</u>
Coetir .....	39	Bioamrywiaeth .....	<u>64</u>
Dwr Agored .....	40	Isadeiledd Gwyrdd .....	<u>65</u>
Gwlyptiroedd .....	41		
Rhostir a glaswelltir .....	42		


MAE NATUR YN

# BWYSIG

Mae nifer enfawr o wahanol gynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau yn ffurfio'r byd naturiol o'n cwmpas. Y term cyfunol am hyn yw bioamrywiaeth. Ar lefel ecosystem, po fwyaf o rywogaethau, a pho fwyaf o unigolion o'r rhywogaethau hyn, mwyaf bioamrywiol yw'r ecosystem neu'r rhanbarth. Mae rhywogaethau cyffredin ac eang hefyd yn bwysig yn ogystal â rhywogaethau prin.

Mae'r blociau adeiladu natur hyn yn werthfawr ynddynt eu hunain, ond gyda'i gilydd maent hefyd yn darparu llawer o fanteision a gwasanaethau hanfodol i ni fel unigolion a chymunedau. Gelwir y rhain yn 'wasanaethau ecosystem' ac maent yn cynnwys prosesau megis peillio a chynhyrchu bwyd, darparu aer a dŵr glân, atal llifogydd, dal a storio carbon, yn ogystal â chyfoethogi iechyd a lles, ynghyd â phrofiadau hamdden.

Mae gwasanaethau ecosystem yn gysylltiedig ag iechyd ecosystem, sy'n dibynnu ar amrywiaeth a helaethrwydd rhywogaethau. Po iachach, neu fwy 'cadarn', yr ecosystem, gorau oll fydd hi i ddarparu gwasanaethau ecosystem.





# CADERNID ECOSYSTEM

yw gallu ecosystem i **ddelio â phwysau a galwadau...**



fel newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol amlach

...tra'n cadw ei gallu i **ddarparu gwasanaethau a buddion ecosystemau...**



fel peillio cnydau, lliniaru llifogydd a darparu bwyd a dŵr glân

...yn awr ac i'r dyfodol.



rydym yn rhan o natur, nid ar wahân iddi

Mae rhai gwasanaethau ecosystem yn dibynnu ar rywogaethau lluosog. Felly, mae llai o rywogaethau neu boblogaethau llai, mwy ynysig yn arwain at ecosystem wannach. I'r gwrthwyneb, po fwyaf yw amrywiaeth a chysylltedd ecosystem, mwyaf abl yw hi i ddarparu gwasanaethau ecosystem a pharhau i'w darparu yn wyneb pwysau, megis newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn gadernid ecosystemau.

Gallwch ddeall y cysyniad o gadernid ecosystemau trwy feddwl am y cymunedau rydym yn byw ynddynt. Mae cymuned iach a chadarn wedi'i hadeiladu ar amrywiaeth a digonedd o bobl a rolau cymdeithasol. Gan fod cymunedau a chymdeithas yn dibynnu ar wasanaethau ecosystem (natur) i weithredu, mae ecosystemau cydnerth felly yn sail i gymdeithas gydnerth.

MAE NATUR YN

# DIRYWIO

Mae gan y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, hanes hir o ddiwydiannu, ac felly mae wedi colli mwy o natur, a phrosesau ecolegol (fel pori) yn gynt na llawer o wledydd. Oherwydd y colledion cynharach hyn, daeth rhai cynefinoedd gwerthfawr a gwarchodedig (a rhywogaethau cysylltiedig) yn gysylltiedig ag arferion rheoli tir traddodiadol, er enghraifft rheoli dolydd gwair traddodiadol a glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt. Arweiniodd colli'r arferion traddodiadol hyn yn ogystal â threfoli cynyddol a darnio cynefinoedd at gyfraddau dirywiad cyflymach yn yr 20fed ganrif, fel bod 97% o ddolydd blodau gwyllt wedi'u colli yn y Deyrnas Unedig erbyn yr 1980au.

Yn fyd-eang ysgogwyr mwyaf dirywiad natur ar dir yw newid defnydd tir a cholli cynefinoedd o ganlyniad i gynaeafu adnoddau, datblygu ac amaethyddiaeth, yn ogystal â llygredd a rhywogaethau estron goresgynnol (INNS). Ar y môr mae arferion anghynaladwy fel gor-bysgota a llygredd yn cael effeithiau enfawr. Mae'r un peth yn wir yng Nghymru, lle mae pwysau allweddol yn cynnwys INNS, plâu a chlefydau, newid defnydd tir, gor-ecsbloetio adnoddau, a llygredd. Ar lefel leol a byd-eang, mae newid hinsawdd hefyd yn cael effeithiau eang a chynyddol aflonyddgar ar rywogaethau ac ecosystemau'r tir a'r môr.

I gael rhagor o wybodaeth am gyflwr natur yng Nghymru gweler yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020.

\*Cynefinoedd/rhywogaethau y mae safleoedd gwarchodedig wedi'u dynodi ar eu cyfer.

\*\*A oedd â digon o dystiolaeth i'w hasesu.



Gostyngiad **20%**  
ar gyfartaledd, yn yr  
helaethrwydd o 380 o  
rywogaethau tir a dŵr croyw ers  
1994 yng Nghymru.




Mae **80%**  
o nodweddion naturiol  
gwarchodedig\* yng Nghymru  
mewn cyflwr anffafriol neu na  
ddymunir\*\*.

Yn fyr, mae

**llai o fywyd gwyllt** bellach


i'w gael **mewn llai o leoedd**

Dim ond



**13%**

o Gynefinoedd Cymru sydd  
â lefelau amrywiaeth uchel.



Daw Cymru yn yr

**16eg** safle gwaethaf  
yn y Mynegai Cyfanrwydd  
Bioamrywiaeth o blith 240  
o wledydd.

TROSOLWNG O NATUR YN

# ABERTAWWE

Mae amrywiaeth enfawr o gynefinoedd yn Abertawe sy'n cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys rhostir ucheldirol, glaswelltiroedd, coetiroedd, gwlyptiroedd, morydau, clogwyni arfordirol yn ogystal â thwyni tywod a gweundiroedd, ac mae llawer o'r rhain yn aml ychydig funudau o'r ddinas neu ganolfannau trefol eraill. Mae'r amgylchedd morol o amgylch Abertawe yn cynnal cymunedau clogfeini rhynglanwol, riffiau llyngyr diliau, arwynebau mawn a chlai, tywod a graean islanwol, yn ogystal â gwelyau cregyn gleision.

Yn swatio ymhlith blerdwf trefol Abertawe mae cynefinoedd sydd â chysylltiad agos â gorffennol diwydiannol y ddinas, megis y glaswelltir calmaidd prin sy'n gallu goddef metel a geir yn Six Pit, Bro Tawe a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Graig Wen, ychydig i'r gorllewin o Fon-y-maen. Mae hwn a rhywogaethau eraill sy'n hoff o fetel wedi adennill pridd a fu unwaith yn safle gwaith copr. Yn yr un modd, mae hen dwneli a siafftiau yng ngwaith brics Dyffryn Clun a Dynfant, a ddefnyddiwyd unwaith ar gyfer mwyngloddio, bellach yn gartref i ystlumod gan gynnwys ystlumod pedol prin.

Mae arfordir Abertawe yn eiconig ac yn amrywiol. Yn amrywio o ehangder 5 milltir Bae Abertawe, hyd at glogwyni arfordirol calchfaen de Gŵyr a holltir gan dwyni tywod a thraethau, gan arwain at sarn enwog Pen Pyrod. Mewn cyferbyniad mae morlin gogledd Gŵyr wedi'i ddominyddu gan forfa heli, twyni bregus a'r amgylcheddau aberol. I mewn i'r tir yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr mae bryniau Cefn Bryn a Thwyn Rhosili yn dominyddu tirwedd o gaeau bach traddodiadol, dyffrynnoedd coediog, a thir comin agored.






I gael rhagor o wybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau yn Abertawe gweler yr adrannau [Cynefinoedd](#) a [Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf](#) yn ogystal â'r [sbotolau ar rywogaethau Abertawe](#).




© HAWLFRAINT Y GORON [A HAWL CRONFA DDATA] (2021)

Mae dros 20% o arwynebedd tir y sir a llawer o'r moroedd o amgylch Abertawe wedi'u dynodi'n safleoedd gwarchoddedig gan y gyfraith. Dyma rai (ond nid pob un) o'r enghreifftiau gorau o fyd natur yn Abertawe. Mae'r safleoedd hyn yn bwysig ar gyfer gwella a chynnal cadernid ecosystemau, ond nid ydynt yn cwmpasu popeth sy'n bwysig ac yn unigryw am natur yn Abertawe, ac ni allant gynnal cadernid ecosystemau ar eu pen eu hunain. Mae hyd yn oed rhywogaethau a chynefinoedd cyffredin, safleoedd bywyd gwyllt trefol a manau gwyrdd (fel Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur - SBCN) ar draws Abertawe, yn bwysig i gynnal ansawdd a lledaeniad natur yn Abertawe.



-  **7** ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG (ACA)
-  **2** ARDALOEDD GWARCHOD ARBENNIG (AGA)
-  **2** SAFLEOEDD RAMSAR
-  **28** SAFLEOEDD O DDIDDRDEB GWYDDONOL ARBENNIG BIOLEGOL (NEU GYMYSG) (SDGA)
-  **4** GWARCHODFEYDD NATUR CENEDLAETHOL (GNC)
-  **6** GWARCHODFEYDD NATUR LLEOL (GNLL)



**154**  
SAFLEOEDD O BWYS CADWRAETH NATUR (SBCN)


# CADERNID ECOSYSTEM

## YN ABERTAWE

Mae adroddiad Cadernid Ecosystemau Abertawe a luniwyd gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth Ddeddwyrain Cymru (SEWBRc), yn 2022, yn mapio cadernid ecosystemau ar draws sir Abertawe gyfan, gan ystyried 11 ffactor gwahanol. Er bod mapio cadernid ecosystemau yn ei ddyddiau cynnar o hyd, mae'r allbwn yn ddefnyddiol serch hynny ac yn nodi meysydd cadernid **uwch (arlliwiau tywyllach)** ac **is (arlliwiau ysgafnach)** ledled Abertawe.

Mae'n dangos bod y rhan fwyaf o Abertawe â chadernid is. Yn ôl y disgwyl, nodir y cadernid ecosystemau isaf o amgylch canol y ddinas tra bod yr ardaloedd â'r cadernid ecosystemau uchaf yn tueddu i gyfateb â safleoedd gwarchodedig presennol.

Mae'n bwysig bod cadernid ecosystemau'n cael ei wella ar draws y sir a bod ardaloedd o gadernid uchel yn cael eu cysylltu i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Abertawe.



Data @ Adroddiad Cydnerthedd Ecosystemau 2022  
SEWBRc

MAE NATUR YN ABERTAWE MEWN

# TRAFFERTH

Yn 2018  
cofnodwyd  
dyfrgwn mewn  
**37%**  
yn llai o leoedd o  
gymharu â  
2009/10

Mae **50**  
o rywogaethau  
heb eu cofnodi  
ers 2002\*

Nid yw union gyflwr natur yn Abertawe yn hysbys oherwydd diffyg data. Mae'r hyn a wyddom yn creu darlun sy'n peri pryder. Mae amrywiaeth a llwyth o rywogaethau yn dirywio, mae mwyafrif y nodweddion gwarchoddedig\*\* mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys, ac mae gan y rhan fwyaf o Abertawe gadernid ecosystemau is.

Rhai o'r rhwystrau mwyaf i adferiad byd natur yn \*\*\* Abertawe yw INNS (e.e., canclwm Japan a ffromlys chwarennog), diffyg cysylltedd, a cholli cynefinoedd oherwydd cystadleuaeth am ddatblygiad, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wael o faterion natur, yn ogystal â diffyg buddsoddiad hirdymor (cyllid neu fel arall) mewn adfer natur.

\*\*Cynefinoedd/rhywogaethau y mae safleoedd gwarchoddedig wedi'u dynodi ar eu cyfer. Mae data safleoedd Abertawe ar gael o Aseiad Safleoedd Gwarchoddedig CNC 2020. \*\*\*Wedi'i nodi yng Ngweithdai GGANL PNL Abertawe, Medi a Hydref 2022

4 ADAR




4 CHWILOD



1 CORYNNOD



9 CEN



1 MWSOG



1 GWENYN



11 GWYFYNOD



2 FFWNG

1 PRYFED  
DIPTERA1 PYSGOD  
ESGYRNOG4 GLÖYNNOD  
BYW2 MAMALIAID  
TIR9 PLANHIGION  
SY'N  
BLODEUO

ac felly o bosibl  
nad ydynt yn  
preswyllo yn  
Abertawe

\*Data @ SEWBRc 2023

# THEMÂU

## GWEITHREDU

LNRAP ABERTAWE

Caiff Themâu Gweithredu CGNAL Abertawe eu llywio gan amrywiaeth o ysgogwyr polisi a deddfwriaeth byd-eang a chenedlaethol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP) sef y strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol i Gymru. Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd yn 2015 ac a ddiweddarwyd yn 2020/21, yn gosod chwe amcan allweddol a phum thema drosgynnol ar gyfer gweithredu er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Yr amcanion cenedlaethol hyn sy'n pennu'r fframwaith trosgynnol ar gyfer themâu gweithredu LNRAP Abertawe, ond maent yn seiliedig ar wybodaeth a blaenoriaethau lleol, yn ogystal â'r themâu a amlygir yn Natganiadau'r Ardal Forol a De-orllewin Cymru.

Mae gan LNRAP Abertawe 25 Thema Weithredu. Ar gyfer pob Thema Weithredu darperir un astudiaeth achos i ddangos sut mae gwaith partner Partneriaeth Natur Leol Abertawe wedi, neu yn bwriadu cyfrannu at y flaenoriaeth adfer natur honno. Sylwch mai dim ond ciplun bach y mae'r astudiaethau achos hyn yn ei ddarparu, ac nid ydynt yn cwmpasu'r holl waith amrywiol a wneir gan PNL Abertawe.

I gael cynrychiolaeth weledol o'r cysylltiadau rhwng Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe (a'r cynllun ei hun) a pholisïau, deddfwriaeth a gwybodaeth byd-eang, rhanbarthol a lleol eraill gweler yma.



@ Evelyn Gruchala

ER GWYBODAETH:

# THEMÂU GWEITHREDU NRAP I GYMROU A THEMÂU DATGANIADAU ARDAL

## NRAP i Gymru: Themâu Gweithredu

1. Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth
2. Cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth
3. Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd
4. Uwchsgilio a'r gallu i gyflawni
5. Prif ffrydio, llywodraethu ac adrodd ar ein cynnydd

## Datganiad Ardal y De-orllewin: Themâu

1. Lleihau anghydraddoldebau iechyd
2. Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy.
3. Gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth a'i hadfer
4. Lliniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid (thema drawsbynciol).

## Datganiad yr Ardal Forol: Themâu

1. Adeiladu cadernid ecosystemau morol
2. Atebion sy'n seiliedig ar natur ac addasu ar yr arfordir
3. Manteisio i'r eithaf ar gynllunio morol





# AMCAN 1

NRAP I GYMRU

Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

<b>Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe</b> ar gyfer Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel	<b>Thema Gweithredu NRAP Cymru a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal y De-orllewin a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal Forol a Drafodir</b>
1.1. Darparu digwyddiadau addysgol a chodi ymwybyddiaeth hygyrch yn bersonol ac/neu ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar ehangu cyrhaeddiad mentrau y tu hwnt i bobl/grwpiau sydd eisoes yn ymwneud ag adfer a chadwraeth natur.	2 & 4	-	1 & 2
1.1. Gweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth, heriau, a chyfleoedd ar gyfer gwneud penderfyniadau natur bositif*.	2 & 4	-	1 & 2
1.1. Ymgysylltu â chymunedau, ysgolion a thirfeddianwyr i hybu dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn eu hardal a chydweithio i annog rheolaeth briodol a chamau gweithredu i sicrhau adferiad byd natur.	2 & 4	2	1
1.1. Ymgorffori prosesau gwneud penderfyniadau natur bositif* ar sail tystiolaeth ar bob lefel a bod yn eiriol dros newidiadau sy'n cefnogi adferiad byd natur.	2, 4 & 5	-	3

\*Mae Natur Bositif fel y'i diffinnir yn adroddiad [Natur Bositif 2030](#) yn golygu gwrthdroi'r dirywiad presennol mewn bioamrywiaeth, fel bod rhywogaethau ac ecosystemau yn dechrau adfer. Mae hwn yn gam hanfodol i sicrhau adferiad byd natur. Felly, mae gwneud penderfyniadau natur bositif yn golygu eich bod yn ystyried eich effaith ar fioamrywiaeth ac yn cymryd camau i gefnogi adferiad.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 1.1



Mae Fferm Gymunedol Abertawe wedi bod yn darparu gweithgareddau am ddim a chyfleoedd gwirfoddoli ers dros 20 mlynedd. Maen nhw'n rhedeg Farm Clwb ar ddydd Sadwrn lle mae gwirfoddolwyr yn cynorthwyo gyda thyfu bwyd, gwaith cadwraeth, a bwydo a charthu cytiau'r anifeiliaid! Maen nhw hefyd yn cynnal #MercherLles unwaith y mis i bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg oherwydd iechyd meddwl gwael. Yn ogystal â diwrnodau gwirfoddoli i oedolion ar ddydd Mawrth a dydd Iau, i ddarparu cymorth i'r rhai sydd ag iechyd meddwl neu lesiant gwael.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 1.2



Am y 13 blynedd diwethaf, mae Oakley Intertidal Marine Education wedi cynnal digwyddiadau blynyddol rhad ac am ddim ar draws traethau Abertawe a Gŵyr, i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau a chynefinoedd morol ac arfordirol a'r bygythiadau y maent yn eu hwynebu. Cesglir yn benodol gofnodion am rywogaethau sy'n dynodi newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) morol. Mae'r digwyddiadau hefyd yn cyfrannu at Gynllun rheoli AHNE Gŵyr, cynlluniau rheoli traethau amrywiol a statws Baner Las traethau Abertawe.

ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 1.3**

Ymgysylltodd tîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe ag adran y Parciau i ddatblygu cynlluniau prawf rheoli drwy dorri a chasglu ar draws sawl parc ac ymylon yn 2021. Yn ogystal, cynhaliwyd plannu i lenwi gyda chymunedau lleol yn y parciau, gan roi cyfle i wirfoddolwyr ddysgu am bwysigrwydd a manteision rheoli trwy dorri a chasglu a blodau gwyllt yn gyffredinol.

ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 1.4**

@ Ben Sampson

Daeth Prifysgol Abertawe yn un o aelodau sefydlu Partneriaeth Prifysgolion Natur Bositif ym mis Tachwedd 2022, gan addo nid yn unig sicrhau bod y tir y mae'n ei reoli yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth, ond hefyd asesu effaith ei holl weithrediadau ar natur. Yna bydd yn lleihau'r effeithiau hyn cymaint â phosibl ac yn gwneud iawn am y rhai sy'n weddill.

## AMCAN 2:

NRAP I GYMRU:

Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r  
pwys mwyaf a'u rheoli'n well



<b>Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe</b> ar gyfer Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well	<b>Thema Gweithredu NRAP Cymru a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal y De-orllewin a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal Forol a Drafodir</b>
2.1. Monitro ac arolygu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf yn Abertawe i ehangu'r wybodaeth gyfredol am bresenoldeb a niferoedd a thrwy hynny hysbysu penderfyniadau rheoli ac ymyriadau cadwraeth.	2	-	1 & 2
2.2. Datblygu, adolygu a chyflawni camau gweithredu wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â bygythiadau i rywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf, neu'n eu gwella, gan adeiladu ar rwydwaith ehangach o adferiad natur a chadernid ecosystemau.	1	3 & 4	1
2.3. Cyflawni camau rhagweithiol sy'n cynyddu helaethrwydd ac ehangiad y rhywogaethau a'r cynefinoedd o'r pwys mwyaf.	1	3 & 4	1

ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 2.3**

@ Aaron Davies

Mae Grŵp Ystumod Morgannwg wedi bod yn monitro poblogaethau ystumod pedol o amgylch Abertawe ers y 1980au. Maent yn cyfrif clwydi mamolaeth ac yn cynnal arolygon gaeafgysgu bob blwyddyn. Gwnaethant hefyd lansio eu Prosiect Ystumod AudioMoth yn 2023. Yn y cynllun hwn gallwch fenthyg synhwyrdd ystumod AudioMoth i gasglu mwy o gofnodion am ystumod ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 2.3**

Sefydlodd tîm AHNE Cyngor Abertawe Raglen Mannau Addoli Gŵyr yn 2022. Nod y prosiect tair blynedd hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw darparu atebion pwrpasol i wella'r rhyngweithio rhwng bywyd gwylt ag eglwysi ym Mhenrhyn Gŵyr a gwella eu gwerth bioamrywiaeth hirdymor. Ymhlith y rhywogaethau a dargedir mae ystumod, gwenoliaid duon, tylluanod gwynion, peillwyr ac ymlusgiaid.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 2.3



Yn 2022 rhyddhaodd CNC 200 o lygod bengron y dŵr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Oxwich ym Mhenrhyn Gŵyr er mwyn ailsefydlu poblogaethau o'r rhywogaeth sydd wedi diflannu o dde Cymru dros y blynyddoedd. Roedd y rhyddhau yn benllanw ymdrech tair blynedd i gaethiwo llygod pengrwn y dŵr a lleihau poblogaethau mincod Americanaidd (ysglyfaethwr estron goresgynnol) yn y warchodfa.





## AMCAN 3:

NRAP I GYMRU:

Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

<b>Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe</b> ar gyfer Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd	<b>Thema Gweithredu NRAP Cymru a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal y De-orllewin a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal Forol a Drafodir</b>
3.1. Nodi lleoliad a blaenoriaethau ar gyfer adfer a chreu cynefinoedd yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol gan gynnwys cadernid ecosystemau a chysylltedd cynefinoedd.	1	3 & 4	1 & 2
3.2. Datblygu a chyflawni camau gweithredu i wella amrywiaeth, maint, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd yn Abertawe.	1	3 & 4	1 & 2
3.3. Sicrhau bod o leiaf 30% o sir Abertawe wedi'i diogelu a'i rheoli'n effeithiol ar gyfer byd natur erbyn 2030, gan gynnwys ardaloedd morol*, daearol a dŵr croyw.	1	2, 3 & 4	1 & 2
3.4. Adfer a chreu cynefinoedd o fewn a thu allan i rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru i helpu i adfer prosesau ecolegol a chysylltu poblogaethau bywyd gwylt morol.	1	2, 3 & 4	1
3.5. Adfer a chreu cynefinoedd ac isadeiledd gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi, er mwyn cynyddu mynediad i fannau gwyrdd a glas lled-naturiol amlswyddogaethol o ansawdd da a'r manteision lles cysylltiedig i gymunedau.	1	1	-
3.6. Adfer a chreu cynefinoedd o fewn ein hamgylcheddau afonydd a gorlifdir i helpu i adfer prosesau ecolegol a chysylltu bywyd gwylt dyfrol, fel pysgod mudol.	1	2, 3 & 4	-

\* Cynefinoedd morol rhwng penllanw cymedrig y gorllanw uchel ac isel \*\*tir/cynefinoedd dŵr croyw at benllanw cymedrig y gorllanw uchel o fewn ffiniau'r sir.

ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 3.1**

Mae Cyngor Abertawe a Chlwb Golff Pennard yn gweithio i adfer Castell Pennard a dau blanhigyn prin sy'n tyfu yno, heboglys a llysiâu'r bystwn melyn. Gyda Celtic Wildflowers maent wedi datblygu strategaeth liniaru ar gyfer y ddau blanhigyn sy'n cynnwys casglu hadau, eu tyfu mewn cyfleuster pwrpasol ac ailblannu mewn pocedi a ddyluniwyd yn arbennig yn y mortar calch ar ôl i'r gwaith adfer ddod i ben.


ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 3.2**

Mae Coed Cwm Penlle'r-gaer yn defnyddio pori cadwraethol i gynyddu amrywiaeth cynefinoedd glaswelltir yn y Parc Canol. Mae amrywiaeth botanegol y safle glaswelltir ym Mhenlle'r-gaer wedi lleihau dros y blynyddoedd oherwydd ychydig neu ddim rheolaeth weithredol. Felly, trwy ddefnyddio buches leol o wartheg yr Ucheldir i bori'r safle o bryd i'w gilydd, y gobaith yw y bydd amrywiaeth strwythurol a rhywogaethau yn cynyddu yn y glaswelltir dros amser. Gan fod o fudd i bryfed, adar a mamaliaid hefyd.

ASTUDIAETH ACHOS


## THEMA GWEITHREDU 3.3



Mae safleoedd gwarchoddedig statudol\* ar gyfer cadwraeth natur yn gorchuddio tua 21% o arwynebedd tir sir Abertawe\*\*. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r safleoedd hyn mewn cyflwr da a/neu o dan reolaeth gadarnhaol er gwaethaf ymdrechion tirlfeddianwyr a sefydliadau eraill gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Bydd archwiliad gwaelodlin yn cael ei gynnal i asesu canran ardal Abertawe sydd wedi'i diogelu a'i rheoli ar gyfer byd natur fel y gallwn weithio tuag at gyflawni 30 erbyn 30 yn Abertawe.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 3.4



Cynigir prosiect o fewn Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin i fynd i'r afael â'r potensial i adfer gwellt-y-gamlas bach yng ngogledd Gŵyr drwy asesiad dichonoldeb. Bydd hyn yn pennu a ellir cyflawni targedau a nodau adfer, gan gyfeirio at brosiectau adfer morwellt y gorffennol a rhai blaengar cyfredol.

\* Gan gynnwys SoDdGA biolegol neu gymysg, ACA, AGA, safleoedd Ramsar, a Gwarchodfeydd Natur Lleol. \*\*Ar benllanw isel cymedrig y gorllanw

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 3.5



Nod prosiect coridor gwyrdd #NaturDinas Stryd y Pier yw ceisio datblygu coridor gwyrdd ar hyd Stryd y Pier. Gosodwyd potiau planhigion plastig wedi'u hailgylchu yn 2021/22 gan gynnig rhywogaethau brodorol blwyddyn gyfan neu rywogaethau sy'n cynnal pryfed peillio. Yn 2022/23 ychwanegwyd pwll glaw a phlanhigion glaw i greu pwll bywyd gwyllt bychan a gardd planhigion glaw gorlifo gan arafu llif y dŵr glaw y tu allan i Ganolfan yr Amgylchedd. Mae gan [Ganolfan yr Amgylchedd](#) hefyd wal fyw a tho gwyrdd.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 3.6



Mae [Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru](#) yn gweithio i ddileu neu addasu rhwystrau mewnlifoedd megis coredau ar draws de-orllewin Cymru, gan gynnwys Abertawe. Mae'r gwaith hwn yn caniatáu i rywogaethau dyfrol symud yn rhydd ar hyd afonydd, yn ogystal ag ail-naturioli llysoedd a gwasgariad dilynol gwaddodion a maetholion.



## AMCAN 4:

NRAP I GYMRU:

Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

<b>Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe</b> ar gyfer Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd	<b>Thema Gweithredu NRAP Cymru a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal y De-orllewin a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal Forol a Drafodir</b>
4.1. Lleihau a, lle y bo'n bosibl, gwaredu llygredd amgylcheddol sy'n mynd i mewn i amgylcheddau tir, dŵr croyw a morol yn Abertawe. Defnyddio rheolaeth gynaliadwy a datrysiadau seiliedig ar natur lle y bo'n berthnasol.	1	1, 2, 3 & 4	1 & 2
4.2. Gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol tir, dŵr croyw a morol ar draws sir Abertawe.	1	2, 3 & 4	1 & 2
4.3. Cyfrannu at darged Sero Net 2050 Abertawe a gwneud penderfyniadau cyfrifol yn fyd-eang i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar rywogaethau a chynefinoedd.	1	3 & 4	1
4.4. Defnyddio canllawiau ymwelwyr a hyrwyddo codau ymddygiad perthnasol ar gyfer lleihau effaith dyn ar fywyd gwylt morol, rhynglanwol a daearol lleol.	1 & 2	2 & 3	1
4.5. Lleihau colledion pellach a chynyddu cysylltedd rhwng coridorau bywyd gwylt allweddol ar draws Abertawe i leihau effeithiau darnio cynefinoedd o ganlyniad i dwf trefol ac effeithiau defnydd tir hanesyddol.	1	3 & 4	-
4.6. Ymateb yn rhagweithiol i ymchwil sy'n dod i'r amlwg ar ddirywiad rhywogaethau lleol a chenedlaethol, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ddiplannu.	2	3	-

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 4.1



@ Harriet Alvis

Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn gweithio mewn ardaloedd trefol a gwledig i leihau llygredd yn ein hamgylcheddau dŵr croyw. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda ffermwyr i leihau dŵr ffo o fuarthau fferm a thir fferm, gweithio gyda Dŵr Cymru i wthio'r defnydd o wlyptiroedd i hidlo gormodedd o faetholion a hefyd gyngor ar leihau llygredd trefol a darparu Draenio Trefol Cynaliadwy.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 4.2



@ Jessica Minnett

Mae prosiect Rhwydwaith Cadernid Ecolegol Cymru (WaREN) yn gweithio i hwyluso Grwpiau Gweithredu Lleol (LAG) neu grwpiau gwirfoddol ledled Cymru (gan gynnwys Abertawe). Mae WaREN yn darparu hyfforddiant ac offer i Grwpiau Gweithredu Lleol a'i nod yw sefydlu dull cydweithredol a chynaliadwy o fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol ar lefel genedlaethol a lleol.



ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 4.3

### Sero Net 2030

Sut rydym yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar draws y cyngor.

Mae gan Gyngor Abertawe darged sefydliadol o sero net erbyn 2030. Er mwyn cyflawni hyn maent yn cymryd camau ar draws y cyngor cyfan, gan gynnwys ehangu eu fflyd cerbydau trydan, lleihau swm y gronfa bensiwyn sy'n buddsoddi mewn tanwydd ffosil, tyfu'r rhwydwaith beicio a llawer mwy.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 4.4



@ Gareth Richards

Mae 'Llysgenhadon Morloi' sydd wedi'u hyfforddi gan Grŵp Morloi Gŵyr yn darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebir gan forloi. Maent yn aml yn rhoi cyflwyniadau i ysgolion, grwpiau cymunedol ac yn mynychu digwyddiadau lleol. Maent hefyd yn hyrwyddo Canllawiau Operation Seabird, ymgyrch genedlaethol i leihau aflonyddwch i'r holl fywyd gwylt morol ac yn cefnogi 'Gower Safe', menter aml-asiantaeth leol i warchod y gymuned a'r amgylchedd.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 4.5



Mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) wedi bod yn creu ac yn adfer pyllau ar draws Gŵyr ers 2012. Mae hyn wedi'i ganolbwyntio ar boblogaeth ynysig bwysig o fadfallod dŵr cribog sy'n gofyn am rwydwaith o byllau cysylltiedig ar draws y dirwedd. Mae'r gwaith hwn wedi darparu mwy o gynefinoedd, ac wedi cysylltu rhai presennol, gan fod o fudd i lu o rywogaethau yn ogystal â madfallod dŵr cribog.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 4.6



@ Phillip Croft

Mae prosiect 'Savings Swifts' Cymdeithas Adaryddol Gŵyr yn mynd i'r afael â gostyngiadau difrifol (58% rhwng 1995 a 2018) yn niferoedd gwenoliaid duon yn genedlaethol. Gyda chymorth gwirfoddolwyr lleol maent yn cynnal arolygon i ychwanegu at ddata cyfyngedig ar ble mae gwenoliaid duon yn bridio yn Abertawe, ac yn nodi cyfleoedd i gynyddu cyfleoedd bridio trwy osod blychau nythu ar amrywiaeth o adeiladau preifat a chyhoeddus.



## AMCAN 5:

NRAP I GYMRU:

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro

<b>Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe</b> ar gyfer Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro	<b>Thema Gweithredu NRAP Cymru a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal y De-orllewin a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal Forol a Drafodir</b>
5.1. Defnyddio arolygon sylfaenol, monitro a mentrau eraill i ddatblygu sylfaen dystiolaeth leol o ansawdd uchel ar gyfer Abertawe a sicrhau bod data ar gael drwy SEWBReC, a sefydliadau perthnasol eraill (e.e., CNC).	2 & 4	-	-
5.2. Cefnogi datblygu offer newydd sy'n defnyddio data amgylcheddol lleol i nodi a thargeddu cyfleoedd adfer natur.	2, 3 & 4	-	-
5.3. Sicrhau bod gan PNL Abertawe y sgiliau a'r arbenigedd eang ac amrywiol sydd eu hangen i gyflawni prosiectau adfer byd natur.	2, 3 & 4	-	-

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 5.1




© Steve Bolchover

Comisiynodd cam datblygu Natur Am Byth a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol amrywiaeth o arolygon i lywio camau gweithredu adfer rhywogaethau ar gyfer rhywogaethau pwysicaf Abertawe. Mae hyn yn cynnwys chwilen y draethlin, sy'n bresennol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Whiteford ar hyn o bryd. Mae hwn yn un o dri safle yn unig sy'n bodoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae pob un ohonynt ym Mae Caerfyrddin.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 5.2



Gellir defnyddio allbynnau adroddiad Cadernid Ecosystemau Abertawe a gynhyrchwyd gan SEWBReC yn 2022 mewn sawl ffordd. Mae hyn yn cynnwys nodi lleoliadau ar gyfer gwaith adfer i'w gyflawni, yn ogystal â nodi safleoedd cadernid uwch y gellid eu hystyried ar gyfer dynodiadau safle, ac i lywio dyraniadau tir strategol.

ASTUDIAETH ACHOS

# THEMA GWEITHREDU 5.3



Ar hyn o bryd (2023) mae Partneriaeth Natur Leol Abertawe yn cynnwys dros 50 o aelod-sefydliadau sy'n gweithio ym maes cadwraeth natur, tyfu bwyd yn y gymuned a/neu ymgysylltu â'r gymuned, yn ogystal ag aelodau unigol. Mae archwiliad yn cael ei gynnal gan gydlynwyr PNL i nodi unrhyw bartneriaid allweddol sydd ar goll a bylchau mewn gwybodaeth. Cefnogir hyn gan gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn ariannu rôl cydlynedd y Bartneriaeth Natur Leol yn PNL Abertawe (tan 2025 o leiaf).



# PARTNERIAETH NATUR LLEOL ABERTAW

## SWANSEA LOCAL NATURE PARTNERSHIP

RHAI O'N PARTNERIAID..

**SEWBREC**  
SOUTH EAST WALES BIODIVERSITY RECORDS CENTRE  
CANOLFAN GOFNODION BIOAMRYWIAETH DE DDWYRAIN CYMRU



swansea community  
**FarmFferm**  
gymunedol abertawe

**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
Natural  
Resources  
Wales

**Swansea  
University**  
Prifysgol  
Abertawe



Clyne  
Valley  
Community  
Project

**THE ORCHARD  
PROJECT**  
Bringing orchards into the heart  
of urban communities



**Penllergare**  
Cadwraeth, Cymuned, Hanes  
Conservation, Community, History



**Ymddiriedolaeth  
Genedlaethol  
National Trust**

**Coeden Fach**  
Community Tree Nursery

**GLAMORGAN BAT  
GROUP**  
**Prifysgol Cymru**  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

amphibian and reptile  
**conservation** **gwarchod**  
amffibiaid ac ymlusgiaid

# AMCAN 6:

NRAP I GYMRU:

Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

<b>Themâu Gweithredu LNRAP Abertawe</b> ar gyfer Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion	<b>Thema Gweithredu NRAP Cymru a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal y De-orllewin a Drafodir</b>	<b>Thema Datganiad Ardal Forol a Drafodir</b>
6.1. Parhau i ddarparu partneriaeth leol (PNL Abertawe) gref a gweithredol i weithredu fel rhyngwyneb rhwng partneriaid cyflenwi lleol a Llywodraeth Cymru/CNC	5	-	-
6.2. Ymgorffori LNRAP Abertawe o fewn sefydliadau partner i arwain camau gweithredu.	5	-	-
6.3. Annog gweithredu ar y cyd wrth gyflwyno LNRAP Abertawe, gan gynnwys datblygu prosiectau, ariannu, a chymryd rhan mewn prosiectau ar raddfa tirwedd neu brosiectau cenedlaethol.	3	-	-



ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 6.1**

Mae PNL Abertawe yn cyfarfod bob chwarter i rannu gwybodaeth, rhwydweithio a thrafod prosiectau cyfredol. Yn ogystal, mae Cydlynnydd(Cydlynwyr) Partneriaeth Natur Leol Abertawe yn mynychu cyfarfodydd cyswllt bob pythefnos â Phartneriaethau Natur Lleol o siroedd eraill, Llywodraeth Cymru a CNC. Mae'r fforwm sy'n cael ei hwyluso gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn caniatáu llif gwybodaeth a syniadau naill ffordd a'r llall rhwng llawr gwlad a chanolbwynt y Llywodraeth.

ASTUDIAETH ACHOS

**THEMA GWEITHREDU 6.2**

Mae Cyngor Abertawe yn datblygu Cynllun Adran 6 a fydd yn nodi camau gweithredu a phrosiectau y bydd y cyngor yn eu cyflawni dros gyfnod o dair blynedd i gyflawni ei ddyletswydd Adran 6 (bioamrywiaeth) o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r cynllun hwn wedi'i alinio â LNRAP Abertawe ac mae camau gweithredu'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau lleol ar gyfer adfer natur a nodir yn themâu gweithredu'r LNRAP.

ASTUDIAETH ACHOS

## THEMA GWEITHREDU 6.3



Mae PNL Abertawe yn hwyluso gweithredu cydweithredol trwy gyfnewid gwybodaeth, prosiectau partner ar y cyd, a chyllid a rennir. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru a reolir gan Gydlynnydd(Gydlynwyr) y Bartneriaeth Natur Leol a staff eraill tîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe i gefnogi llawer o brosiectau partner yr PNL dros y blynyddoedd. Gan gynnwys y Prosiect Perllannau sydd wedi sefydlu neu adfer 16 perllan gymunedol yn Abertawe rhwng 2021 a 2023.

NODYN AR

# ADOLYGU A CHOFNODI

- Bydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe yn cael ei adolygu eto erbyn 2030.
- Bydd y camau y mae partneriaid yn eu cymryd tuag at LNRAP Abertawe yn cael eu rhannu a'u hadolygu bob blwyddyn. Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cofnodi gan Gydlynnydd(Gydlynwyr) PNL Abertawe.
- Os hoffech gymryd rhan yn y broses adolygu, cysylltwch â Chydlynnydd(Chydlynwyr) yr PNL gan ddefnyddio'r e-bost isod.

**Sylwch** nad yw LNRAP Abertawe yn ymrwmo unrhyw un partner PNL i unrhyw gamau gweithredu penodol. Bwriad LNRAP Abertawe yw nodi blaenoriaethau (themâu gweithredu) sy'n arwain camau gweithredu partneriaid. Felly cyfrifoldeb partneriaid unigol y Bartneriaeth Natur Leol yw nodi ble a sut y gallant gyfrannu at gamau gweithredu tuag at themâu gweithredu LNRAP Abertawe. Mae Cydlynnydd(Cydlynwyr) Partneriaeth Ddysgu Leol Abertawe yno i helpu os oes angen.



[nature.conservation@abertawe.gov.uk](mailto:nature.conservation@abertawe.gov.uk)



RHAGOR O WYBODAETH AM

# NATUR ABERTAWE

Mae'r tudalennau sydd yn dilyn yn rhoi mwy o fanylion am natur yn Abertawe yn ychwanegol i'r trosolwg a ddarparwyd yn gynharach yn yr LNRAP. Darllenwch ymlaen neu cliciwch ar y dolenni isod i gael gwybod mwy am:

- [Trosolwg o gynefinoedd](#)
- [Rhywogaethau o'r pwys mwyaf](#)
- [Amlygu rhai o rywogaethau Abertawe](#)
- [Safleoedd arbennig](#)

# TROSOLWG O GYNEFINOEDD

## ABERTAW E

Mae'r disgrifiadau canlynol wedi'u haddasu o waith blaenorol ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (cyhoeddwyd 2005) i roi trosolwg o rai o'r cynefinoedd gwahanol a geir yn Abertawe. Nid oes gan Abertawe archwiliad cynefinoedd diweddar a chynhwysfawr, felly mae'r trosolwg a gyflwynir yma yn canolbwyntio ar Gynefinoedd sydd o'r Pwys Mwyaf (fel y'u rhestrir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) gan fod mwy o wybodaeth ar gael ar eu cyfer.

Fodd bynnag, dylid nodi bod cynefinoedd eraill yn bwysig iawn o hyd ar gyfer adfer natur a chadernid ecosystemau. O ystyried natur drefol rhannau helaeth o Abertawe, darperir trosolwg o gynefinoedd trefol hefyd.

Daw'r data a ddefnyddir ar gyfer y rhan fwyaf o fapiau o haenau cynefinoedd morol a daearol Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) CNC. Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr ac mae rhai mathau o gynefinoedd yn Abertawe ar goll. Yn ogystal, crëwyd y setiau data cynefinoedd daearol o haenau a ddeilliodd o arolygon Cynefin Daearol Cam 1 a gynhaliwyd ar draws Cymru yn y 1980au a'r 1990au. O ystyried oedran y data hwn gall presenoldeb a maint cynefinoedd fod wedi newid ers hynny mewn rhai achosion.

# COETIR


## ABERTAWE

Mae gan Abertawe amrywiaeth o gynefinoedd coetir lled-naturiol, y mae rhai ohonynt yn hynafol. Yn ogystal â chynefinoedd planhigfa goetir. O'r rhain mae wyth cynefin o'r pwys mwyaf yn Abertawe, gan gynnwys:

- Coetir collddail cymysg yr iseldir
- Coetir gwlyb
- Coetir ffawydd ac yw yr iseldir
- Coed derw yr ucheldir
- Porfa goed a pharcdir
- Perllannau
- Coedwigoedd ynn cymysg yr ucheldir
- Gwrychoedd

Coedwig ynn cymysg yr iseldir, coed ynn cymysg yr ucheldir, a choetir gwlyb yw'r rhan fwyaf o'r coetir blaenoriaeth yn Abertawe. Gyda choed derw yr ucheldir yn gymharol anghyffredin ac eithrio yng ngogledd-ddwyrain y sir o amgylch Clydach. Mae coetir ffawydd ac yw yr iseldir yn brin yn Abertawe, gyda'i faint wedi'i gyfyngu i ychydig o safleoedd ym Mhenrhyn Gŵyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol coetir (gan gynnwys gwrychoedd a pherllannau) yw'r mwyaf cysylltiedig o'r holl fathau o gynefinoedd yn Abertawe gyda rhwydweithiau'n rhedeg ar draws y sir gyfan a rhwydweithiau craidd sy'n cwmpasu ardaloedd cymharol fawr. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd fel tiroedd comin gogledd Abertawe lle mae'r rhwydweithiau'n torri neu'n absennol.

Mae cynefinoedd coetir yn Abertawe yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau o'r pwys mwyaf gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) goch y berllan, y dylluan wen, sawl rhywogaeth o ystlumod, redyn y gors a phathewod.



Mae llawer o fygythiadau i gynefinoedd coetir yn Abertawe gan gynnwys darnio a diffyg rheolaeth briodol, ond un o'r rhai mwyaf treiddiol yw lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol fel rhododendron a chanclwm Japan ynghyd â chlefydau coed megis clefyd coed ynn.

# DWR AGORED

ABERTAWE

Mae afonydd a nentydd, pyllau a llynnoedd mesotroffig i gyd yn gynefinoedd dŵr agored o'r pwys mwyaf a geir yn Abertawe.

Mae amrywiaeth o fathau o afonydd gan gynnwys nentydd alcaliaidd yn tarddu ar Gomin Cefn Bryn a Thwyn Rhosili. Yn ogystal â'r Bury Pill, nant sy'n llifo'n rhydd sy'n croesi Gŵyr i Afon Llchwyr, y dylanwadir arni gan y llanw, ac Afon Tawe. Yn ogystal â nifer o nentydd llai sy'n tarddu yn ucheldiroedd dalgylch gogledd Abertawe.

Drwy'r sir gyfan mae'n debygol bod dros 1000 o byllau ond nid yw cyflwr y rhan fwyaf ohonynt yn hysbys. Fodd bynnag, mae nifer o safleoedd allweddol hysbys ar gyfer pyllau yn Abertawe, gan gynnwys Comin Barlands, Pwll Cilâ Uchaf, Mynydd Garn Goch a Choedwig Penlle'r-gaer. Mae cynefinoedd pyllau yn cynnig cyfle unigryw gan eu bod yn un o'r ychydig gynefinoedd o'r pwys mwyaf y gellir ei greu yn eithaf hawdd.

Mae llynnoedd mesotroffig ar y llaw i'w cael arall yn gymharol anfyfych yn y Deyrnas Unedig ac yn Abertawe ac wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ymylon ardaloedd ucheldirol, ond mae rhai enghreifftiau yn Abertawe, a'r mwyaf nodedig, Broadpool, ar Gefn Bryn.

Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau o'r pwys mwyaf gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) fadfall ddŵr gribog ar Benrhyn Gŵyr ynghyd â dyfrgwn, crafanc-y-frân dridarn y dŵr, neidr y gwair, a llyffantodod dafadennog. Mae llawer o fygythiadau i



gynefinoedd dŵr agored yn Abertawe gan gynnwys llygredd, aflonyddwch hamdden, a rhywogaethau estron goresgynnol fel corchwyrn Seland Newydd, dail-ceiniog arnofiol, pluen parot, rhedyn y dŵr a sawl dyfrllys. Fodd bynnag, un o'r bygythiadau mwyaf arwyddocaol i byllau a llynnoedd yn arbennig yw diffyg rheolaeth sy'n arwain at gyfres o golledion cynefin dŵr agored yn y pen draw. Ar gyfer ein hafonydd, yn ogystal â llygredd, mae rhwystrau i lwybrau pysgod (fel coredau) a diffyg llif (e.e. oherwydd sythu hanesyddol) hefyd yn fygythiadau mawr.

# GWLYPTIROEDD

## ABERTAW


Mae gorgorsydd, tir gwlyb ucheldirol, ffen a chorstir a gwelyau cyrs a ffen yr iseldir i gyd yn gynefinoedd gwlyptir o'r pwys mwyaf a geir yn Abertawe.

Mae presenoldeb gorgors yn gyfyngedig iawn o fewn y sir, yn ogystal â chlytiau o dir gwlyb ucheldirol, ffeniau a chynefinoedd cors, sydd oherwydd eu natur wedi'u cyfyngu i amgylcheddau ucheldir Abertawe, i'r gogledd o Felindre.

Ffeniau a gwelyau cyrs yr iseldir sydd i'w gweld fwyaf o'r tri chynefin gwlyptir o blith y rhai o bwys mwyaf yn Abertawe, ond mae'n dal i fod yn gyfyngedig o ran ei bresenoldeb a'i gysylltedd, i'w weld yn bennaf mewn clytiau bychan, anghysbell ac eithrio safleoedd mwy yng Ngwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Oxwich a Chors Crymlyn.

Mae cysylltedd gwelyau cyrs hefyd yn gyfyngedig gan fod y safleoedd mwy yn tueddu i fod yn annibynnol e.e., Cors Oxwich, heb fawr o gysylltedd rhwng y safleoedd llai ynysig e.e., Pwll Du.

Er eu bod yn gymharol anghyffredin yn Abertawe o gymharu â chynefinoedd eraill, mae'r cynefinoedd gwlyptir sy'n bresennol yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau o'r pwys mwyaf, y mae nifer ohonynt yn dibynnu'n gryf ar y mathau hyn o gynefinoedd. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) fras y cyrs, y gornchwigen, mursen las Penfro, a rhedyn cyfrdwy.



Mae llawer o fygythiadau i gynefinoedd gwlyptiroedd yn Abertawe gan gynnwys diffyg rheolaeth yn arwain at ymlediad prysgwydd a rhywogaethau estron goresgynnol fel canclwm Japan, ond mae'r effeithiau mwyaf arwyddocaol trwy ddraeniad/tynnu dŵr a llygredd yn effeithio ar lefelau ac ansawdd dŵr.



# RHOSTIR A GLASWELLTIR

## ABERTAWE

Mae gan Abertawe amrywiaeth o weundir a glaswelltir gan gynnwys wyth cynefin o'r pwys mwyaf:


- Glaswellt y bwla a phorfeydd brwyn
- Ymylon caeau grawn
- Glaswelltir calchaid yr iseldir
- Glaswelltir calaminaidd
- Glaswelltir asid sych yr iseldir
- Rhosydd yr iseldir
- Dolydd yr iseldir
- Rhosydd yr ucheldir

Yn gyffredinol mae ardaloedd anghysbell o weundir yn bennaf gydag ardaloedd dwys mawr ar diroedd comin Gŵyr ac ucheldiroedd Abertawe gydag ond ychydig o fannau o amgylch cyrion trefol Abertawe.

Mae'r prif ardaloedd o gysylltedd glaswelltir i'w gweld trwy'r ardaloedd mawr o laswelltiroedd asidig ucheldirol yn ucheldiroedd Abertawe. Yr ardal gysylltedd arwyddocaol arall yw'r clwstwr o laswelltir asid sych yr iseldir yng ngorllewin Gŵyr; Bryn Llanmadog, Ryers Down a Hardings Down a'r glaswelltir calchaid yn Rhosili.

Mae cynefinoedd gweundir a glaswelltir yn Abertawe yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau o'r pwys mwyaf gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) iâr fach yr haf britheg y gors, yr ehedydd, melyn yr eithin, , gweirlöyn bach y waun, yr ysgyfarnog, a'r wiber.

Mae llawer o fygythiadau i'r cynefinoedd hyn yn Abertawe gan gynnwys darnio a rhywogaethau estron goresgynnol, ond un problem yw amrywioldeb rheolaeth briodol.



Gyda llawer o rostiroedd a glaswelltiroedd heb eu rheoli, a hyd yn oed y rhai a reolir gan bori yn aml yn cael eu tanburi neu eu gorburi oherwydd cymhlethdodau a heriau niferus pori fel trefn reoli. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau da yn Abertawe, megis Overton Mere lle mae gwartheg Dexter a merlod Torcoed yn cael eu defnyddio i reoli ymlediad prysgwydd ar laswelltir calchaid.

# CYNEFINOEDD ARFORDIROL

## ABERTAWE


Mae'r cynefinoedd arfordirol yn Abertawe yn amrywiol, gan gynnwys chwe chynefin o'r pwys mwyaf:

- Gwelyau morwellt
- Traethellau llaid rhynglanwol
- Morfa heli arfordirol
- Graean bras arfordirol â llystyfiant
- Clogwyni a llethrau morol
- Twyni tywod arfordirol

Mae'r cynefinoedd hyn yn ddeinamig ac yn dibynnu ar brosesau arfordirol am eu bodolaeth ac o ganlyniad, dylanwadir arnynt gan newidiadau naturiol o ran ansawdd a maint. Gellir gweld enghreifftiau da o dwyni tywod arfordirol yn Nhwyni Nicholaston, Twyni Oxwich, Porth Einon, Gwarchodfa Whiteford a Thwyni Penmaen. Yn ogystal, mae gwaith adfer a chreu twyni tywod wedi bod yn mynd rhagddo ym Mae Abertawe dros y 10 mlynedd diwethaf.

Ar ogledd Gŵyr, o Whiteford i Gilfach Tywyn, gellir dod o hyd i ehangder mawr o draethellau llaid a morfa heli arfordirol. Mae ardaloedd llai o forfa heli hefyd yn Oxwich a Dyffryn Pennard, yn ogystal ag ardal o draethellau llaid yn SoDdGA Blackpill.

Mae clogwyni a llethrau morol wedi'u cyfyngu'n bennaf i dde a gorllewin Gŵyr lle maent yn ymdoddi i wahanol fathau o llystyfiant megis glaswelltir calchaid a rhostir iseldir. Gwelyau morwellt yw'r prinnaf o gynefinoedd arfordirol Abertawe ac maent wedi'u cyfyngu i ychydig o safleoedd bach yn unig yng Nghilfach Tywyn.



Mae cynefinoedd arfordirol yn Abertawe yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau o'r pwys mwyaf gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) llysiâu'r bystwn melyn, murwyll tewbannog argor, dyfrgwn, helys ysbigog, malwod troellog ceg gul, y gylfinir Ewrasiaidd, y frân goesgoch, y gardwenynen fain, ac ieir bach yr haf glas bach.

Mae llawer o fygythiadau i gynefinoedd arfordirol yn Abertawe. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys aflonyddwch hamdden, INNS, llygredd morol, sbwriel morol, gorburi neu dan-bori, cyfoethogi maetholion, gwasgfa arfordirol, datblygiadau arfordirol, newid yn yr hinsawdd, ac erydiad.

# AMGYLCHEDD MOROL


## ABERTAWE

Mae'r cynefinoedd morol o amgylch Abertawe yn amrywiol, gan gynnwys wyth cynefin o'r pwys mwyaf:

- Arwynebau mawn a chlai
- Gwelyau cregyn gleision
- Riffiau *Sabellaria alveolata*
- Graean lleidiog cysgodol
- Cynefinoedd llaid mewn dŵr dwfn
- Gwaddodion llaid islanwol cymysg
- Cymunedau clogfeini rhynglanwol
- Cynefinoedd creigiog aberol

Gwelyau cregyn gleision yw'r cynefin morol mwyaf cyffredin o'r pwys mwyaf, ac fe'u ceir yn y moroedd ger y lan o amgylch llawer o arfordir Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys clytiau cymharol fawr ger y Mwmbwls, ac ym Moryd Lluchwr. Mae riffiau *Sabellaria alveolata* (llyngyr diliau) hefyd yn bresennol fel twmpathau neu argaenau tenau, wedi'u cyfyngu'n bennaf i'r amgylchedd rhynglanwol oddi ar arfordir deheuol Abertawe, gan gynnwys Bae Abertawe, Bae Llangland, Bae Bracelet, Oxwich a Phorth Einon. Mae cymunedau clogfeini rhynglanwol yn gyffredin ar hyd glannau creigiog Abertawe. Gellir dod o hyd iddynt ym Mae Bracelet, Bae Llangland, Oxwich, Porth Einon a Sarn Pen Pyrod.

Tra bod gwaddodion lleidiog islanwol cymysg i'w cael mewn eangderau mawr oddi ar arfordir gorllewinol a gogledd Gŵyr, ond mewn ardaloedd llai ynysig y mae gweddill y cynefinoedd morol o'r pwys mwyaf. Ceir cynefinoedd creigiog aberol yn Afon Tawe, a Moryd Lluchwr; graean lleidiog cysgodol ger y Mwmbwls, arwynebau mawn a chlai ar draeth Abertawe, Porth Einon a ger Whiteford, a chynefinoedd llaid mewn dyfroedd dyfnion i'r de o Sarn Pen Pyrod.



Mae cynefinoedd morol yn Abertawe yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau o'r pwys mwyaf gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) llamhidydd yr harbwr, dolffin Risso, y forgath styds, y llymrien fach, y crwbân môr cefn-lledr, y slefren goesynnog, ynghyd ag amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau adar. Mae llawer o fygythiadau i gynefinoedd morol yn Abertawe. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys cynnydd yn nymheredd y môr, llygredd, sbwriel morol, rhywogaethau estron goresgynnol, aflonyddwch, datblygiadau alltraeth ynni adnewyddadwy morol, carthu morol a gor-ecsbloetio adnoddau naturiol.

# AMGYLCHEDD TREFOL


## ABERTAWE

Mae cynefinoedd trefol yn Abertawe, megis adeiladau, parciau, gerddi, a mannau gwyrdd a thyfu bwyd eraill yn gorchuddio ardaloedd mawr. Mae rhai wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur (SINC), ond mae hyd yn oed yr ardaloedd hynny heb eu dynodi yn bwysig o hyd o ran cynnal rhywogaethau a chyfrannu at gadernid ecosystemau.

Maent yn gynefinoedd arbennig o bwysig i adar, megis gwenoliaid duon, sy'n defnyddio bondo tai ar gyfer nythu, a rhywogaethau o ystlumod sy'n gwneud eu cartrefi mewn gofodau to ac adeiladau adfeiliedig. Mae rhywogaethau pwysig eraill fel draenogod a'r neidr ddefaid yn cael eu cysylltu'n gyffredin â gerddi trefol a rhandiroedd.

Gall cynefinoedd trefol hefyd chwarae rhan sylweddol o ran cysylltedd, e.e., gall parciau fod yn gynefinoedd 'cerrig sarn' ymhlith nodweddion trefol, tra gall tiroedd comin glaswelltog, ymylon a gwrychoedd fod yn bwysig ar gyfer cysylltu'r cynefinoedd hyn ar draws ardaloedd trefol. Mae gosodiadau isadeiledd gwyrdd fel toeon gwyrdd, waliau byw a gerddi glaw yn darparu adnoddau a chysylltedd i bryfed peillio a rhywogaethau eraill tra'n mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, trwy arafu llif y dŵr ffo wyneb ac oeri yn yr haf. Maent yn creu gwerddonau gwyrdd amlswyddogaethol mewn amgylchedd sydd fel arall yn 'lwyd' i raddau helaeth.

Fodd bynnag, mae lle sylweddol o hyd i wella bioamrywiaeth trwy greu a rheoli rhwydweithiau o erddi, parccir ac adeiladau sy'n llesol i natur yn Abertawe. Mae sawl bygythiad i fywyd gwylt mewn mannau trefol gan gynnwys llygredd golau a chemegion, yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn rheoli rhai o'n mannau gwyrdd, oherwydd nid yw natur yn dwt.



Nid yw llystyfiant byr, wedi'i dorri'n ormodol (neu laswellt artiffisial) yn gadael fawr ddim cyfle, os o gwbl, i flodau gwylt dyfu ac nid yw'n darparu unrhyw gysgod gan effeithio'n negyddol ar beillwyr ac infertebratau eraill, ynghyd â mamaliaid bach ac adar. Mae hyd yn oed mieri, a all ymddangos yn hyll, yn adnodd bwyd gaeaf pwysig i lawer o rywogaethau ac yn darparu cyfleoedd nythu i adar. Felly trwy adael i rai ardaloedd o laswelltir dyfu, bydd blodau gwylt yn blodeuo am gyfnod hwy gan ddarparu bwyd a chynefin i fywyd gwylt. Trwy ganiatáu i blanhigion dyfu gwreiddiau mwy byddant hefyd yn storio mwy o garbon yn y pridd ac yn helpu i liniaru newid hinsawdd.

## RHYWOGAETHAU O'R PWYS MWYAF YN

**ABERTAWE**

O'r 662 o Rywogaethau Unigol o'r Pwys Mwyaf a restrir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae 238 o rywogaethau wedi'u cofnodi gan awdurdod unedol Abertawe yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r data hwn yn seiliedig ar gofnodion biolegol a ddarparwyd gan SEWBRc.

Mae'r tabl yn dangos dosbarthiad y rhywogaethau o'r pwys mwyaf a gofnodwyd yn Abertawe ers 2022 yn ôl grwpiau tacsonomig. Mae infertebratau, yn enwedig Lepidoptera (ieir bach yr haf a gwyfynod) yn cyfrif am gyfran fawr o rywogaethau o'r pwys mwyaf Abertawe.

Mae rhestr lawn o'r rhywogaethau Adran 7 a gofnodwyd yn Abertawe dros yr 20 mlynedd diwethaf i'w gweld [yma](#).

Grŵp Systematig	Nifer y rhywogaethau	% o'r Cyfanswm Nifer Rhywogaethau S7 yn Abertawe
Cen	10	4.2
Cwpanllys a mwsogl	10	4.2
Planhigion Blodau	25	10.5
Ffwng	6	2.5
<b>Pob planhigyn a ffwng</b>	<b>51</b>	<b>21.4</b>
leir bach yr haf a gwyfynod	76	31.9
Mursennod	1	0.4
Corynnod	4	1.7
Gwenyn, cacwn a morgrug	6	2.5
Molysgiaid	4	1.7
Pryfed diptera	2	0.8
Cramenogion	1	0.4
Chwilod	5	2.1
<b>Yr holl infertebratau</b>	<b>99</b>	<b>41.6</b>
Adar	47	19.7
Mamaliaid daearol	14	5.9
Amffibiaid	2	0.8
Ymlusgiaid morol	2	0.8
Ymlusgiaid daearol	5	2.1
Pysgod	12	5
Mamaliaid morol	6	2.5
<b>Yr holl fertebratau</b>	<b>88</b>	<b>37</b>
<b>Cyfanswm y Rhywogaethau</b>	<b>238</b>	<b>100</b>



Mae **LLYSIAU'R-BYSTWN MELYN** yn rhywogaeth planhigyn prin iawn ac, yn y Deyrnas Unedig, mae ond i'w gael ar y clogwyni calchfaen a'r hen waliau ym Mhenrhyn Gŵyr. Mae'n blodeuo yn y gwanwyn gyda blodau melyn tlws hyfryd.



**BRITHEG Y GORS** yw un o'r rhywogaethau iâr fach yr haf sydd o dan y bygythiad mwyaf yn y Deyrnas Unedig, ond mae gennym boblogaeth breswyl ar Ardal Cadwraeth Arbennig Tir Comin Gŵyr. Mewn gwirionedd, dyma'r ail faes pwysicaf i'r rhywogaeth yng Nghymru.



Mae **LLAMHIDYDD YR HARBWR** yn ymwelydd cyson â'r moroedd o amgylch Abertawe. Fe'u gwelir yn gyffredin ym Mae Abertawe neu oddi ar arfordir Gŵyr, cymaint nes bod rhan o fôr Abertawe wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig penodol ar gyfer y rhywogaeth hon.

# RYWOGAETHAU

AMLYGU RHAI O  
ABERTAWE



Mae gofynion cynefin arbenigol iawn gan **MURSEN LAS PENFRO**. Mae dwy boblogaeth o fursen y de yn ACA Tir Comin Gŵyr, sef yr unig boblogaethau hysbys o'r rhywogaeth hon yn ne Cymru.



Mae **GWIBEROD** yn nodwedd adnabyddus o dirwedd Gŵyr, ond mae eu niferoedd ledled Cymru yn gostwng yn gyflym. Maent yn heddychlon ac yn swil ond yn wenwynig, a gall brathiadau ddigwydd trwy gamu arnynt ar ddamwain neu eu codi.



Mae **CHWILEN Y TRAETHLIN** wedi dirywio'n ddifrifol dros yr 20 mlynedd diwethaf o draethau Cymru, Dyfnaint a Chernyw yn ogystal ag arfordir Iwerydd Ffrainc. Mae'r rhywogaeth arfordirol brin hon bellach wedi'i dosbarthu fel un sydd mewn perygl, ond mae'n bresennol yn Abertawe, gyda Whiteford ei phrif safle yn ne Cymru ar hyn o bryd.



Mae **DYFRGWN** yn bresennol ar draws Abertawe ac fe'u gwelir yn y rhan fwyaf o'r afonydd mawr gan gynnwys y Clun, Lluchwr, a Thawe, yn ogystal ag arfordir Gŵyr. Fodd bynnag, mae arwyddion pryderus bod dyfrgwn wedi bod yn prinhau yn Abertawe yn y blynyddoedd diwethaf.



Y **MORLO LLWYD** yw'r prif rywogaeth o forloi i'w gweld ar arfordir Gŵyr. Mae gan y Deyrnas Unedig tua 38 y cant o boblogaeth y byd ac mae gan Gŵyr ganran fach iawn o'r nifer hwnnw. Fodd bynnag, maent yn dioddef aflonyddwch gan ystod o weithgareddau dynol. Mae Grŵp Morloi Gŵyr wedi ymrwymo i leihau digwyddiadau o'r fath drwy godi ymwybyddiaeth o'r ymwelydd byd-eang prin hwn â'n harfordir.




Mae'r **FFACBYSEN CHWERW** yn brin ar draws gorllewin Morgannwg, ond mae poblogaeth i'w chael ar Warchodfa Natur Leol Rhos Cadle, ger Fforest-fach.



Roedd **YSTLUMOD PEDOL** yn wynebu dirywiad trychinebus yn yr 20fed ganrif, ond mae de Cymru yn parhau i fod yn un o'u cadarnleoedd ac rydym yn ffodus bod y ddwy rywogaeth (y lleiaf a'r mwyaf) yn byw yn Abertawe. Mae'r Vincent Wildlife Trust yn berchen ar glwyd ystlumod trwyn pedol ar benrhyn Gŵyr a oedd yn adeilad adfeilledig ond sydd bellach yn dŷ ystlumod! Mae Grŵp Ystlumod Morgannwg yn monitro poblogaethau ystlumod trwyn pedol bob blwyddyn.



Gostyngodd poblogaethau'r **FRÂN GOESGOCH** yn sydyn yn y 19eg ganrif gan eu gadael yn gyfyngedig i rannau gorllewinol y Deyrnas Unedig. Mae poblogaethau i'w cael ar glogwyni de Gŵyr lle mae adar i'w gweld yn rheolaidd, fodd bynnag ledled Cymru mae'r rhywogaeth wedi prinhau dros y ddau ddegawd diwethaf.



# SAFLEOEDD

## ARBENNIG

Mae yna lawer o safleoedd arbennig ar gyfer natur o amgylch Abertawe, rhai wedi'u diogelu gan y gyfraith ac eraill heb. **Ychydig o enghreifftiau o'r rhain yn unig yw'r tudalennau canlynol**, ond os ydych chi eisiau dod o hyd i fwy, rhowch gynnig ar rai o'r adnoddau isod.

- [A-Y o barciau, gwarchodfeydd natur a manau awyr agored - Abertawe](#)
- [Cymru | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#)
- [Gwarchodfeydd Natur | The Wildlife Trust of South and West Wales \(welshwildlife.org\)](#)
- [RSPB](#)
- [Cyfoeth Naturiol Cymru / De-orllewin Cymru \(naturalresources.wales\)](#)



Mae **MORYD LLWCHWR** yn barth aberol mawr sy'n cynnwys ardaloedd o forfa heli pori, traethellau tywod a llaid. Mae'r safle a'r ardaloedd cyfagos yn destun nifer o ddynodiadau (SoDdGA, ACA, AGA a Ramsar) oherwydd nifer o nodweddion cynefin a rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r ardal yn gartref i boblogaethau sylweddol o adar hirgoes ac adar dŵr sy'n gaeafu, sef dros 46,000 o adar ar gyfartaledd. Mae rhannau morol y safle hwn hefyd yn rhan o safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.




Mae Gwarchodfa **WHITEFORD** yn ehangder o dwyni tywod, traeth, morfa heli llanw a choedwig sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r morfeydd yn bwysig ar gyfer gaeafu'r bidden fôr, pibydd yr aber, yr hwyaden lostfain a'r cwtiad aur. Mae tegeiriau gors cynnar, tegeirian y fign, eiddilwellt cynnar, a'r crwynllys Cymreig hefyd i'w gweld ymhlith y systemau twyni tywod.




Mae SoDdGA a chlogwyni **RHOSSILI DOWN** ymhlith y tiroedd comin mwyaf ym Mhenrhyn Gŵyr sy'n gorchuddio 354 hectar. Mae'r twyn yn cynnwys gweundir prysglwyni asid sych gydag ardaloedd lle mae rhedyn yn bennaf, ac mae'r safle'n cynnal rhywogaethau fel ysgyfarnog, telor Dartford, brain coesgoch, mursen las Penfro, a morgrug y gors ddu. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar lawer o'r tir hwn ac wedi bod yn cyflwyno arferion ffermio sy'n llesol i fywyd gwyllt mewn rhai ardaloedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Maent wedi bod yn creu mwy o ddolydd blodau gwyllt, yn rheoli gwrychoedd ac yn ailgyflwyno ffermio llain-gaeau traddodiadol.



Mae **OVERTON MERE** yn rhan o SoDdGA Arfordir Gŵyr ac mae ganddo amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys prysgwydd y ddraenen wen a'r ddraenen ddu, eithin a gweundir cymysg, sgri calchfaen agored, a glaswelltir calchfaen wedi'i wella a heb ei wella. Tra bod glan y môr ei hun yn draeth wedi'i godi â ffosilau sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Iâ ddiwethaf. Mae cor-rosyn cyffredin, llysiâu Crist, effros, y llinos, corhedydd y waun, a chlochdar y cerrig i'w gweld yn gyffredin, yn ogystal â'r chwilen rhesog werdd a'r gwyfyn sidanaidd y don prin. Mae'r warchodfa hefyd yn nodedig am ei gwartheg Dexter a'i merlod mynydd Cymreig sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pori cadwraethol.





Mae **CORS CRYMLYN** yn gorwedd yn nwyrain Abertawe ac yn eiddo i [CNC ac yn cael ei reoli ganddo](#). Dyma'r ehangder mwyaf o ffen yr iseldir yng Nghymru ac mae'n gartref i amrywiaeth eang o arbenigwyr ar wlyptiroedd gan gynnwys telor y cyrs, yr hesg a thelor Cetti, pumnalen y gors, a rhedyn cyfrdwy. Mae'r gors hefyd yn un o saith safle sy'n rhan o [Prosiect Corsydd Crynedig LIFE](#) i adfer corsydd crynedig.



**PARC GWLEDIG DYFFFRYN CLUN** yw'r unig parc gwledig yn Abertawe, sy'n gorchuddio 700 erw o dir o Blackpill ar yr arfordir i Ddyfnant yn y gogledd. Mae ganddo [orffennol diwydiannol hir](#) gan ddechrau gyda chloddio am lo o'r 14eg ganrif, a gweithfeydd haearn a diwydiant gwneud brics ffyniannus drwy gydol y 19eg a'r 20fed ganrif. Ers hynny mae'r dyffryn wedi'i adennill gan fywyd gwylt, gyda choedwigoedd derw, bedw a ffawydd amrywiol, yn darparu cynefin i lawer o rywogaethau o adar. Mae chwareli a thwneli segur yn darparu lloches i ystumod, ac mae tegeirian y gwenyn brin yno hyd yn oed. Mae mynediad wedi gwella dros y blynyddoedd gyda chymorth [Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun](#) felly mae hi'n haws fyth profi byd natur yn y parc erbyn hyn.

Rheolir Gwarchodfa **OXWICH** gan [Gyfoeth Naturiol Cymru](#). Mae'n gymysgedd amrywiol o draethau, twyni tywod, llynnoedd, coetiroedd, clogwyni a chorsydd heli a dŵr croyw. Mae'r twyni tywod yn gartref i degeirianau gwylt sy'n blodeuo yn y gwanwyn ac mae poblogaeth a gydnabyddir yn genedlaethol o ieir bach yr haf glas. [Roedd y GNG hefyd yn safle ailgyflwyno llygod dŵr yn 2022.](#)



**BAE ABERTAWE** yw'r traeth hiraf yn y sir, yn ymestyn o'r twyni ger Marina Abertawe i Bier y Mwmbwls, sy'n gartref i nythfa sylweddol o wylanod coesddu sy'n magu (ar yr hen orsaf bad achub). Mae rhan ddwyreiniol y SINC wedi bod yn darged ar gyfer gwaith adfer twyni dros y blynyddoedd diwethaf, tra bod y rhannau gorllewinol yn cwmpasu **SoDdGA Blackpill** sydd wedi'i ddynodi ar gyfer niferoedd o bwys rhyngwladol [o bibydd y tywod a chwtiaid torchog sy'n gaeafu](#). Mae'r adar hyn yn sensitif i aflonyddwch gan bobl ac anifeiliaid anwes.



Mae **COED CWM PENLLE'R-GAER** yn cynnwys dros 100 erw o goetir ar hen stad Fictoraidd. Yn gartref i'r teulu Llewelyn gynt, mae'r stad heddiw wedi'i ymddiried i Ymddiriedolaeth Penlle'r-gaer sydd wedi gweithio i amddiffyn y coed rhag ymlediad datblygiad pellach a gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Gan gynnwys yn fwyaf diweddar trwy ddefnyddio buches leol o fuchod yr Ucheldir i gynyddu amrywiaeth blodau gwyllt glaswelltir. Mae'r coed ar y safle hefyd dan garped o glychau'r gog a blodau'r gwynt yn y gwanwyn ac mae'r llynnoedd yn lle gwych i wyllo glas y dorlan, bronwennod y dŵr a dyfrgwn.




Yr RSPB sy'n berchen ar warchodfa natur **CWM CLYDACH** ac yn ei rheoli. Mae'r coetir llydanddail ac afon Clydach Isaf sy'n rhedeg drwy'r warchodfa yn cynnal teloriaid y coed, y siglen lwyd, bronwen y dŵr, a gwybedog mannog sy'n magu. Mae bwncathod, barcudiaid coch a chigfrain hefyd i'w gweld yn aml yn y warchodfa.

Mae **RHOS CADLE** yn rhostir trefol. Yn ogystal â rhostir gwlyb, mae gan y warchodfa 11.5 hectar ardaloedd o laswelltir, pyllau, prysgwydd a choetir. Mae'n gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid gan gynnwys ieir bach yr haf a gweision y neidr, llyffantod, ehedydd, grug, clafrllys gwreidd-don, tegeirianau'r gors deheuol a charwy droellennog. Mae yna hefyd nythfa sylweddol o ffacbysen chwerw sydd ond i'w gweld ar ddau safle yng ngorllewin Morgannwg.



Mae **SINC PLUCK LAKE** yn cwmpasu SoDdGA Six Pit, Dyffryn Tawe a'r Graig Wen. Mae treftadaeth ddiwydiannol y safle hwn a'r ardaloedd cyfagos wedi'u cysylltu'n agos â'i warchod, gyda'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer tri chasgliad o rywogaethau sy'n hoff o fetel, sef glaswelltir calaminaidd, casgliadau o gennau sy'n goddef metel a thywodlys y gwanwyn. Trawsleolwyd mwsogl Scopelophila yn llwyddiannus ar y safle yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda chymorth CNC a botanegwyr lleol.



BETH GALLA I EI WNEUD I

# HELPU NATUR YN ABERTAWE?

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi rhai syniadau am yr hyn y gallech ei wneud i helpu byd natur a chyfrannu at y blaenoriaethau ar gyfer (themâu gweithredu) adfer byd natur yn Abertawe. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond yn fan cychwyn.

I'w gwneud yn haws, mae syniadau wedi'u tagio gydag eiconau ar gyfer y cartref, yr ysgol, y gwaith, eich cymuned neu fel rhywun sy'n frwd dros fyd natur i roi syniad i chi o ble y gallech eu gweithredu ond nid oes rhaid i chi gadw at y categorïau hyn!



Cartref



Ysgol



Gwaith



Cymuned



Yn frwd dros  
natur

BETH GALLA I EI WNEUD?

# GWNEUD LLE I NATUR




Gallech **blannu coed** gan eu bod yn darparu bwyd, lloches, a safleoedd nythu i lawer o rywogaethau gan gynnwys pryfed, adar ac ystlumod. Gallech chi blannu a rheoli grŵp bychan o goed, neu lynu at un goeden mewn ymyl, gwrych neu lawnt. Mae coed bytholwyrdd (y rhai sy'n cadw eu dail) a choed collddail (y rhai sy'n colli eu dail dros y gaeaf) yn dod â nodweddion gwahanol i'ch gardd ac os yw'n bosibl, dylech gael y ddau! Bydd coed bytholwyrdd yn rhoi deiliant a gwyrddni trwy gydol y flwyddyn, tra bydd rhai collddail yn rhoi amrywiaeth enfawr o siâp a lliwiau dail yn ogystal â llwyth tymhorol o ffrwythau a hadau. Gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn plannu coed tua 2-3 m oddi wrth ei gilydd ac yn osgoi plannu o fewn 4m i adeiladau.

Gallwch chi **wneud dôl** ar gyfer bywyd gwyllt yn gyflym ac yn rhad, trwy leihau sawl gwaith rydych chi'n torri'ch glaswellt! Gadewch i laswellt dyfu rhwng Ebrill a Gorffennaf i weld pa flodau brodorol sy'n blodeuo. Mae angen i chi bob amser **dorri a thynnu'r** toriadau ar ddiwedd yr haf neu'r hydref, fel sy'n cael ei wneud yn rhai o'n parciau yn Abertawe. Os nad oes gennych lawer o flodau, yna gallwch brynu hadau neu blygiau lleol brodorol i roi hwb i'ch lawnt. Mae'r gribell felen yn arbennig o dda i'w phlannu gan fod hyn yn rheoli tyfiant glaswellt sy'n helpu blodau gwyllt!



Gall plannu mwy o goed fod o fudd i'r hinsawdd a bywyd gwyllt, ond gall y goeden anghywir a blannwyd yn y lle anghywir wneud mwy o niwed nag o les. Er enghraifft, gall plannu coed mewn dolydd llawn blodau gwyllt neu fawndiroedd achosi i fwy o garbon gael ei ryddhau nag y gall y goeden ei ddal a gallai leihau bioamrywiaeth. I gael rhagor o wybodaeth am ddewis y **goeden iawn ar gyfer y lle iawn** gweler yma.

Planwch flodau gwyllt a llwyni brodol i ddarparu bwyd a lloches i bryfed peillio a rhywogaethau eraill. Bydd blodau ac aeron planhigion brodorol yn denu ieir bach yr haf, gwyfynod, gwenyn ac adar. Mae llwyni bytholwyrdd hefyd yn darparu bwyd a lloches yn ystod misoedd oerach. Gallwch hyd yn oed annog ystlumod i mewn i'ch gardd trwy blannu blodau sy'n denu pryfed, er enghraifft, murwyll yr hwyr, melyn yr hwyr a lafant. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnig pecynnau i grwpiau i wella mannau awyr agored i bobl a bywyd gwyllt!



Ystyriwch isadeiledd gwyrdd wrth gyflawni prosiectau adnewyddu gan gynnwys waliau gwyrdd, toeon gwyrdd a gerddi glaw - mae'r rhain yn helpu i gefnogi bioamrywiaeth, lleihau costau ynni, a hybu ein hiechyd a'n lles. Gallant hefyd leihau llifogydd drwy ddargyfeirio dŵr wyneb oddi wrth ein systemau draenio confensiynol.

## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

- [Mai Di Dor - Plantlife](#)
- [Sut i dyfu darn gwyllt neu ddôl fechan | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru \(welshwildlife.org\)](#)

- [Cadwraeth - Cadwch Cymru'n Daclus](#)
- [Sut i blannu Coeden Barcham - Barcham](#)
- [Faint i ddyfrio coed sydd newydd eu plannu? - Barcham](#)
- [Cymdeithas Coedyddiaeth - Canllaw i Sefydlu Coed Ifanc \(trees.org.uk\)](#)

- [Dewis Rhywogaethau Coed ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd - Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio \(tdag.org.uk\)](#)
- [Waliau gwyrdd a byw - Abertawe](#)
- [Gwybodaeth toeon gwyrdd - Abertawe](#)

BETH GALLA I EI WNEUD?


# RHOWCH GARTREF I NATUR



Gallech **osod blwch ystumod** i ddarparu cartrefi tymhorol i ystumod lle mae mynediad i glwydi coed ac adeiladau addas yn gyfyngedig. Mae angen amser ar ystumod i ddod o hyd i fannau clwydo newydd a'u harchwilio, a gall gymryd sawl mis neu hyd yn oed flynyddoedd cyn i'r blychau gael preswylwyr – byddwch yn amyneddgar! Unwaith y bydd ystumod yn dod o hyd i le y maent am fyw ynddo gallant ddychwelyd dro ar ôl tro. Sylwch, gan fod ystumod yn agored i aflonyddwch ac wedi'u diogelu'n llawn o dan gyfraith y Deyrnas Unedig, **dim ond gweithiwr ystumod trwyddedig sy'n cael agor blychau**. Gellir gosod blychau ystumod ar goed mawr neu ar ochr adeilad.



Mae'n fuddiol gosod unrhyw **flwch adar** ar strwythur neu goeden addas, ond mae gwenoliaid duon yn arbennig yn ei chael hi'n anodd. Mae angen math arbennig o flwch arnynt sy'n cael ei osod o leiaf 5 metr i fyny, yn ddelfrydol ar wal sy'n wynebu'r gogledd heb unrhyw rwystrau iddynt blymio i mewn iddynt. Trwy osod blychau gwenoliaid duon yn eich cartref mewn lleoliadau addas byddech chi'n cyfrannu at [Saving Swansea's Swifts Initiative!](#) Gellir gosod blychau adar ar goed mawr neu ar ochr adeilad, felly nid oes angen gardd arnoch hyd yn oed i helpu adar!



Mae angen manau diogel ar bryfed a bwystfilod bach eraill i gysgodi, cuddio rhag ysglyfaethwyr, a magu eu cenawon. Gallwch eu helpu trwy adael neu **greu nodweddion naturiol** fel pren marw sy'n sefyll neu wedi disgyn, pentyrrau o foncyffion, neu drwy adael rhywfaint o lystyfiant marw dros y gaeaf. Mae'r holl bren sy'n pydru, rhisgl fflawio a drysfa o fylchau bach rhwng y boncyffion hefyd yn nefoedd i fywyd gwylt arall gan gynnwys llyffantod a madfallod dŵr!



Gallech hefyd fuddsoddi mewn **blwch tylluanod**. Er bod yn well gan dylluanod fannau tawelach, bydd angen yr amodau cywir arnoch a gallai hyn fod yn addas ar gyfer cartrefi neu fusnesau sydd ag ardaloedd cymharol fawr o dir, megis ffermydd. Mae tylluanod gwyn yn hoff iawn o adeiladau, felly gallai adeilad segur neu groglofft dawel (lle gall yr aderyn fynd i mewn 3m+ i fyny) fod yn lle da ar gyfer blwch tylluanod gwyn. Fodd bynnag, mae'n well gan dylluanod brech gynefin coetir.



Gallwch **wneud pwll bas** i greu cynefin i lawer o rywogaethau gan gynnwys pryfed, amffibiaid a phlanhigion; yn ogystal â darparu adnodd dŵr pwysig i adar a mamaliaid. Gellir troi hyd yn oed powlen golchi llestri yn nodwedd gwlyptir bywyd gwylt. [Oes gennych chi le ar gyfer pwll bywyd gwylt neu wlyptir bach?](#) Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn ofalus wrth symud planhigion pwll o erddi eraill, [gan fod yna rai rhywogaethau cas a all ddifetha eich pwll.](#)

## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

- [Blychau Nythu Ar Gyfer Yr Ardd - Yr RSPB](#)
- [Blychau Nythu'r Dylluan Frech - The Barn Owl Trust](#)
- [Ffyrdd o helpu natur - Abertawe](#)
- [Creu pentwr o foncyffion ar gyfer bywyd gwylt | Yr RSPB](#)

- [Ble yw'r lle gorau i osod eich blwch nythu'r Dylluan Wen? \(barnowltrust.org.uk\)](#)
- [Gosod eich blwch - Blychau Ystumod - Bat Conservation Trust \(bats.org.uk\)](#)

- [Sut i adeiladu pwll | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru \(welshwildlife.org\)](#)
- [Adnodd cwbl newydd ar gyfer creu pyllau bywyd gwylt gardd ar gael nawr | Amphibian and Reptile Conservation \(arc-trust.org\)](#)
- [Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cadwch Cymru'n Daclus](#)

BETH GALLA I EI WNEUD?

# GWYLIWCH EICH LLYGREDD!




## Meddylwch am eich defnydd o gemegion

gartref, yn yr ardd, yr ystafell ddosbarth ac yn y gwaith. Mae defnyddio sebon golchi llestri heb ffosffad yn un ffordd o leihau llygredd dŵr. Gallech hefyd osgoi defnyddio plaladdwyr artiffisial, chwynladdwyr a gwrteithiau. Yn ogystal â defnyddio compost heb fawn neu geisio gwneud un eich hun. Syniad arall yw defnyddio dewisiadau eraill yn lle pelenni gwllithod fel gwaddodion coffi a phlisygn wyau.



Mae glaswellt artiffisial yn ffynhonnell llygredd microplastig. Mae rhai cynnyrch yn honni eu bod yn ailgylchadwy, ond dim ond trwy broses arbenigol y gellir gwneud hyn, felly ar ôl i'r glaswellt artiffisial fynd y tu hwnt i'w oes (10-20 mlynedd) mae'n debygol y bydd yn mynd i safle tirlenwi. Ni all glaswellt artiffisial storio carbon na helpu gyda llifogydd fel y gall planhigion byw, felly nid yw ychwaith yn darparu unrhyw fudd i'r hinsawdd. Mewn gwirionedd, mae'r broses o'i wneud yn allyrru carbon sy'n golygu ei fod yn llygrwr net. Nid yw glaswellt artiffisial ychwaith yn darparu unrhyw fwyd na chysgod i fywyd gwyllt, ac mae bron yn rhwystr llwyr i'r pridd oddi tano, gan atal adnoddau bwyd hanfodol, megis dail marw, rhag cyrraedd y pridd. Mae hyn yn newynu anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n byw yn y pridd fel mwydod. Mae pryfed turio, fel gwenyn unigol, hefyd yn cael eu hatal rhag dod o hyd i gartrefi.

Os nad oes gennych chi laswellt yn eich cartref, eich ysgol, neu eich gweithle, neu os oes gennych chi falconi cysgodol ac eisiau cyflwyno rhywfaint o wyrddni, **yn lle glaswellt artiffisial** rhowch gynnig ar lwyni bytholwyrdd mewn potiau, neu blanhigion sy'n goddef cysgod fel clychau'r gog, garlleg gwyllt, neu eirlysiau. Bydd y rhain yn bywiogi eich lle heb gyflwyno plastigion niweidiol ac yn darparu bwyd a lloches i fywyd gwyllt!



Mae llygredd plastig ym mhobman, ac mae'n arbennig o niweidiol i ecosystemau morol a dŵr croyw. Mae'n fgythyiad enfawr i fywyd gwyllt oherwydd nid yw'n ymddatod yn hawdd. Gall darnau mwy ddal a/neu anafu bywyd gwyllt, a gall darnau llai o blastig gael eu hamlyncu a cronni yng nghyffwrdd anifeiliaid ar frig y gadwyn fwyd (gan gynnwys ni). Mae yna lawer o newidiadau bach y gallwch chi eu gwneud i **leihau eich ôl-troed plastig** fel ceisio prynu ffrwythau a llysiau rhydd sydd heb eu gorchuddio â phlastig. Neu os oes gennych chi'r amser a'r lle, gallech chi roi cynnig ar dyfu eich llysiau eich hun gartref. Os oes angen i chi brynu plastig, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ailgylchu wedyn.



## Gwirio am ddraeniau wedi'u camgysylltu.

Camgysylltiad draen yw pan fydd dyfais (e.e., peiriant golchi) neu blymwaith (e.e., toiled) wedi'i gysylltu â'r draen neu'r bibell anghywir fel bod dŵr brwnt yn cael ei ryddhau i'r garthffos dŵr wyneb, yn lle'r garthffos dŵr gwastraff. Mae'r garthffos dŵr wyneb yn cael ei rhyddhau'n uniongyrchol i afonydd neu nentydd, felly os oes camgysylltiad, bydd llygryddion yn cael eu rhyddhau i'r dyffrffyrdd a'r traethau amgylchynol bob tro y byddwch chi'n fflysio neu'n golchi eich dillad! Cyfrifoldeb perchennog yr eiddo yw trwsio camgysylltiad, ond gallwch gysylltu â Dŵr Cymru, eich awdurdod lleol, neu blymwr WaterSafe am gyngor os ydych yn amau bod gennych gamgysylltiad.

## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

• [Garddio organig heb gemegion | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru \(welshwildlife.org\)](#)

• [Sut i ddefnyddio llai o blastig | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru \(welshwildlife.org\)](#)

• [Camgysylltiadau Draeniau sy'n Bygwth Ein Afonydd | Yr Ymddiriedolaeth Afonydd](#)

• [Camgysylltiadau | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](#) 56

BETH GALLA I EI WNEUD?


# YMLADD YR ARGYFWNG HINSAWDD



Mae tua thraean o fwyd yn cael ei golli neu ei wastraffu yn ystod y daith o'r cae i'r bwrdd, gan feddu ar ôl troed amgylcheddol enfawr. Pe bai gwastraff bwyd yn wlad, hon fyddai'r trydydd allyrrydd mwyaf o nwyon tŷ gwydr!

Gall lleihau'r pellter rhwng lle mae'ch bwyd yn cael ei gynhyrchu a ble rydych chi'n ei brynu helpu i leihau **gwastraff bwyd** ac allyriadau, gan fod yn llesol i'r hinsawdd, natur, a chi! Bydd bwyta'n dymhorol hefyd yn helpu i leihau ôl troed amgylcheddol eich deiet gan ei fod yn osgoi bwydydd a dyfir mewn tai gwydr ynni-ddwys.

Bydd popeth a wnewch i frwydro yn erbyn newid hinsawdd hefyd yn helpu gydag adferiad byd natur, felly diolch! Ymhlith **newidiadau syml** y gallech eu gwneud o amgylch y tŷ, ystafell ddosbarth neu fusnes mae newid i ddarparu'r ynni gwyrdd, lleihau'r defnydd o drydan a dŵr sy'n cael ei wastraffu, a cherdded a beicio lle bo modd. Os ydych yn berchennog busnes, gallech annog eich gweithwyr i feicio neu gerdded i'r swyddfa drwy gymryd rhan yn y cynllun beicio i'r gwaith a/neu ddarparu cymorth i staff gymudo ar drafnidiaeth gyhoeddus.



Os ydych chi'n bwyta cig, ceisiwch ddewis cig sydd ag ôl troed carbon is, fel cig wedi'i borthi â phorfa/glaswellt yn hytrach na chig wedi'i borthi â grawn. Yn enwedig o ffermydd lleol a/neu **ffermydd adfywio** sy'n defnyddio dulliau mwy llesol i natur wrth dyfu cynydau a ffermio da byw.



Mae mawn yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn compost ar gyfer garddio ond mae'n cael ei gloddio o rostiroedd, corsydd, a ffeniau gan achosi difrod i gynefin hynod fregus ac anodd ei gael yn ôl a'r holl rywogaethau sy'n dibynnu arno. Yn y Deyrnas Unedig mae mwy na 94% o fawnogydd yr iseldir yn cael eu difrodi neu eu dinistrio. Mae mawn yn tyfu'n araf (ond milimetr neu ddwy y flwyddyn) felly ni cheir mawn sy'n cael ei golli yn ôl yn ystod ein hoes ni, ein plant, na hyd yn oed ein hwyrion. Mewn gwirionedd, gall rhywfaint o echdynnu masnachol gael gwared ar fwy na 500 mlynedd o dyfiant mawn mewn un flwyddyn! Mae mawndiroedd nid yn unig yn bwysig i'r bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt, ond maent hefyd yn ddalfeydd carbon enfawr sy'n golygu eu bod yn storio llawer o garbon o dan y ddaear. Pan fydd y mawn yn cael ei ddifrodi neu ei ddinistrio mae'r carbon hwn yn cael ei ryddhau, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Felly, trwy **beidio â defnyddio mawn** gallwch helpu i leihau eich effaith amgylcheddol ac atal difrod pellach i'r ecosystemau bregus ac unigryw hyn.

## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

• [Newidiwch sut rydych chi'n teithio | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru \(welshwildlife.org\)](#)

• [The Anatomy Of Action](#)  
• [Beth yw Pori Cadwraeth? | PONT \(pontcymru.org\)](#)

• [Lleihau gwastraff bwyd | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wales \(welshwildlife.org\)](#)  
• [Sut i beidio â defnyddio mawn gartref | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru \(welshwildlife.org\)](#)





YSGOLION YN

# DARGANFOD NATUR

BETH GALLA I EI WNEUD?

## OS YDW I'N BRIN O LE?

GALLWCH O HYD ...



Osod **to gwyrdd** ar gysgodle biniau, sied neu falconi. Gallech hefyd osod wal werdd neu flwch ffenestr. Ewch i [Ganolfan\\_yr\\_Amgylchedd](#) ar Stryd y Pier am ysbrydoliaeth.



**Planhigion blodau gwyllt a llwyni brodol.** Ar gyfer mannau llai, mae plannu dringwyr fel gwyddfïd, clematis, pys pêr, a rhosod yn darparu adnoddau ar gyfer peillwyr heb fod angen mannau mawr. Cofiwch fod yr un egwyddorion yn berthnasol os nad oes gennych unrhyw fannau awyr agored, gallwch blannu'r blodau gwyllt mewn blychau ffenestri neu botiau!

Nid oes rhaid i chi gael gardd neu dir awyr agored i osod **blwch adar** oherwydd gallwch osod y rhain ar adeiladau eich cartref, ysgol neu weithle (er efallai y bydd angen caniatâd arnoch os nad chi yw'r perchennog!). Gellir hyd yn oed roi rhai blychau adar ar goed os oes gennych rai. Mae'r un peth yn wir am **flychau ystlumod** hefyd!



Ewch â'r plant i ymweld ag un o'r nifer o [warchodfeydd natur yn Abertawe](#). Profwyd bod amser a dreulir ym myd natur yn gwella dysgu a bydd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr **ddarganfod y byd naturiol** o'u cwmpas. Os nad oes gennych chi'r sgiliau na'r profiad i addysgu'r myfyrwyr eich hun gallech chi edrych ar gyrsiau neu deithiau sy'n cael eu cynnal gan diwtoriaid addysg awyr agored profiadol.

Gellir meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o natur ymhlith plant o oedran cynnar iawn. Mae bioamrywiaeth yn elfen hanfodol o **addysg amgylcheddol** a gellir ei gysylltu â'r cwricwlwm cenedlaethol mewn llawer o wahanol ffyrdd. Er enghraifft, gallech chi gwblhau archwiliad bioamrywiaeth o dir eich ysgol (hyd yn oed os nad oes gennych chi lawer o wyrddfannau, fe allech chi synnu at yr hyn y gallech chi ddod o hyd iddo!) a chofnodi pa rywogaethau rydych chi'n dod o hyd iddyn nhw. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'ch cofnodion i [SEWBRReC](#), a gellir gwneud hyn [ar-lein](#) neu drwy [ap CCALI Cymru](#). Gallai'r ymarfer hwn fod yn arbennig o ddiddorol os ydych wedi creu/yn rheoli ardaloedd bywyd gwyllt o fewn eich tiroedd.



### Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

- [Gwybodaeth toeon gwyrdd - Abertawe](#)
- [Hyfforddiant Ysgol Goedwig \(forestschoolsnpt.org.uk\)](#)
- [BioBlitz | Her Wyllt yr Ysgol - Yr RSPB](#)
- [A-Y o barciau, gwarchodfeydd natur a mannau awyr agored - Abertawe](#)
- [Eco-Sgolion - Cadwch Gymru'n Daclus - Eco-Sgolion \(keepwalestidy.cymru\)](#)

BETH GALLA I EI WNEUD?

# GOSOD ESIAMPL: YN YR YSGOL



Byddwch yn **ysgol eco** i annog pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i'w hysgol a'r gymuned Eco-ysgol ehangach.



Ymunwch â'r **Cynllun Llesol I Wenyn** i gyfrannu at weithredu ar raddfa'r dirwedd ar gyfer pryfed peillio.

**Dangoswch arferion da** ar gyfer yr amgylchedd yn yr ystafell ddosbarth trwy ddefnyddio dŵr ac ynni yn effeithlon, lleihau gwastraff, ac aildefnyddio ac ailgylchu lle bo modd. Os oes gennych chi le ar dir eich ysgol fe allech chi greu gardd bywyd gwyllt, perllan neu lain lysiau yn yr ysgol a'i defnyddio i ddysgu arferion garddio sy'n llesol i fywyd gwyllt.



## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

- [Sut dderbyn ardystiad B Corp- B Lab UK \(bcorporation.uk\)](https://www.bcorporation.net/)
- [Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Sut alla i gymryd rhan \(biodiversitywales.org.uk\)](https://www.biodiversitywales.org.uk/)
- [Cymorth busnes - Cadwch Cymru'n Daclus - Caru Cymru](#)
- ['Goriad Gwyrdd - Cadwch Cymru'n Daclus](#)
- [Sut i helpu bywyd gwyllt yn y gwaith | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wales \(welshwildlife.org\)](https://www.welshwildlife.org/)
- [Sut i helpu bywyd gwyllt yn yr ysgol | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wales \(welshwildlife.org\)](https://www.welshwildlife.org/)

## FEL BUSNES




Os nad oes gennych chi dir neu os na allwch ei reoli ar gyfer byd natur, gallwch **rol** i Gorff Anllywodraethol (NGO) amgylcheddol sy'n gofalu am natur yn rhywle arall. Pwyntiau bonws am gefnogi cynllun lleol yn Abertawe!



Aseswch yr effaith ar natur wrth wneud penderfyniadau yn eich busnes a gwnewch bopeth o fewn eich gallu i **leihau eich effaith** a chefnogi adferiad byd natur!

**Sefydlwch gynllun gwirfoddoli** yn eich cwmni. Gallech ganiatáu diwrnodau gwyliau arbennig i gyflogeion wirfoddoli gyda sefydliad cadwraeth natur lleol. Gall hyn fod o fudd i'ch gweithwyr, yn ogystal â'r bywyd gwyllt lleol, trwy ganiatáu iddynt ennill sgiliau a phrofiadau newydd. Os hoffech awgrymiadau ynghylch ble i wirfoddoli cysylltwch â Chydlynnydd (Chydlynwyr) y Bartneriaeth Natur Leol am ragor o fanylion.



**Rhannwch** gamau gweithredu natur cadarnhaol eich cwmni ar-lein i annog ac ysbrydoli busnesau eraill i weithredu i adfer byd natur yn Abertawe.

Ceisiwch ardystiad **B-Corp**. Mae busnesau B-Corp yn bodloni safonau uchel o ran perfformiad cymdeithasol ac amgylcheddol, tryloywder ac atebolrwydd.

BETH GALLA I EI WNEUD?

# YN FY NGHYMUNED



Gallwch wirfoddoli ar gyfer un o'r nifer o **grwpiau cymunedol** llawr gwlad bach yn Abertawe, fel [Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun](#), [Gwirfoddolwyr Coetir Cymunedol Cilfái](#), [Chwarel Rosehill](#), neu grwpiau 'Cyfeillion' niferus Parciau Abertawe (fel rhai enghreifftiau yn unig) neu [greu un eich hun!](#) [Cysylltwch](#) â Chydlynnydd Gwirfoddolwyr Tîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe, neu eich [Swyddog Prosiect Cadwch Gymru'n Daclus Lleol](#) am ragor o fanylion.



**Dysgwch am natur** yn eich cymuned ac os ydych chi'n meddwl bod gennych chi rywle yn eich ardal leol a ddylai gael ei warchod, neu os ydych chi eisiau cyngor rheoli yna [cysylltwch](#) â Chydlynnydd(Chydlynwyr) Partneriaeth Natur Leol Abertawe.



Po fwyaf bydd pobl yn gwybod am fyd natur o'u cwmpas, mwyaf byddan nhw o bosib yn malio ac yn cymryd camau i sicrhau ei fod yn gwella, felly gwaeddwch am natur yn eich cymuned! Gallwch **ledu ymwybyddiaeth** mewn digwyddiadau cymunedol neu ar gyfryngau cymdeithasol.



Mae angen **camau gweithredu cydlynol** i adfer byd natur felly gallech weithio gyda chymdogion i sefydlu coridorau bywyd gwyllt fel [priffyrdd draenogod](#).



**Cysylltwch â'ch cynghorydd** . Cysylltwch â'ch gwleidydd lleol a gofynnwch beth sy'n cael ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth neu rhowch wybod iddynt am unrhyw bryderon sydd gennych. Mewn rhai achosion gallech hefyd weld beth allai eich gweithle ei wneud i helpu byd natur yn eich cymuned.

Gallech **drefnu** digwyddiadau fel [codi sbwriel](#) neu lanhau afonydd neu ystyried cydweithio i greu mannau ar gyfer natur fel gerddi bywyd gwyllt neu berllannau cymunedol.



Os ydych chi'n poeni am ddifrod neu berygl i'r amgylchedd naturiol, yna gallwch chi **roi gwybod am ddigwyddiad** i'r [awdurdodau perthnasol](#).

## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellach

- [Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhoi gwybod am ddigwyddiad \(naturalresources.wales\)](#)
- [Creu priffyrdd a chilffyrdd natur | Yr RSPB](#)
- [Canllaw Glanhau Arfordirol a Mewndirol - Diwrnod Cefnforoedd y Byd - World Ocean Day](#)
- [Sut i drefnu glanhau? | Glanhau Afonydd \(river-cleanup.org\)](#)
- [Arwyr Sbwriel - Cadwch Cymru'n Daclus - Caru Cymru](#)
- [Sut i drefnu digwyddiad codi sbwriel cymunedol - Y Blog Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu \(forgerecycling.co.uk\)](#)
- [Hybiau Codi Sbwriel - Cadwch Cymru'n Daclus - Caru Cymru](#)
- [Gwobrau - Cadwch Cymru'n Daclus](#)

BETH GALLA I EI WNEUD?

# FEL RHYWUN SY'N FRWD DROS NATUR



Un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud gyda'ch gwybodaeth a'ch profiad yw **rhannu eich sgiliau** ag eraill! Gallech wneud hyn trwy grŵp natur lleol, trwy fynychu digwyddiad recordio a chynnig eich profiad, neu gallech hyd yn oed gynnal eich digwyddiadau natur eich hun i drosglwyddo eich sgiliau i aelodau eich cymuned. Os hoffech unrhyw help neu gyngor [cysylltwch](#) â Chydlynnydd(Chydlynwyr) y Bartneriaeth Natur Leol.



Ydych chi'n adarwr medrus? Neu ai chwilod sy'n denu'ch sylw? P'un a ydych chi'n arbenigwr, yn Siôn bob crefft, yn ddechreuwr brwd, neu'n ddysgwr gydol oes gallech **defnyddio eich sgiliau** trwy wirfoddoli'ch amser. Gallech gymryd rhan mewn prosiect gwyddoniaeth dinasyddion, cynllun monitro cenedlaethol neu BioBlitz lleol! Gallech hyd yn oed ddechrau eich arolwg eich hun. Gallai hyn amrywio o ddarganfod natur yn eich gardd neu fonitro eich ardal leol am eich hoff rywogaeth. Cofiwch gyflwyno'ch cofnodion i SEWBRcC bob tro!



Cofnodwch yr hyn a welwch pan fyddwch chi allan (hyd yn oed os ydych ond yn cerdded y ci gyda'r nos!) a **chyflwyno eich cofnodion** i [Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth Ddedwyrain Cymru \(SEWBRcC\)](#). Mae'n rhad ac am ddim ac yn hawdd i'w wneud, gallwch gyflwyno'ch cofnodion [ar-lein gan ddefnyddio SEWBRcCORD](#) neu drwy [ap CCAL Cymru](#). Os na allwch gyflwyno cofnodion ar-lein neu ddefnyddio'r ap, gallwch hefyd rannu'r hyn rydych wedi'i weld gyda SEWBRcC trwy [e-bost neu ar ffurflen gofnodi](#). **Nid oes yn rhaid i chi fod yn arbenigwr i gyflwyno cofnodion**, ac os nad ydych yn hyderus yn eich dull adnabod, ceisiwch dynnu llun i'w gyflwyno ochr yn ochr â'ch cofnod. Gall cofnodion biolegol helpu i fonitro rhywogaethau a chynefinoedd felly trwy gyflwyno eich cofnodion gallech fod yn helpu eu cadwraeth! Gallwch hefyd archwilio cofnodion yn eich ardal chi ar-lein gan ddefnyddio [Aderyn](#).



P'un a ydych chi'n fotanegydd sy'n edrych i fireinio'ch sgiliau cyfredol, yn adarwr sydd am ddysgu mwy am ieir bach yr haf neu'n ddechreuwr pur sy'n gobeithio dysgu am eich coeden gyntaf nid yw byth yn rhy hwyr i barhau i ddysgu ac **ehangu eich sgiliau**. Mae yna ddigonedd o adnoddau ar-lein, apiau a gweminarau yn rhad ac am ddim i'ch rhoi ar ben ffordd. Gallech hefyd ymuno â grŵp natur lleol neu fynychu digwyddiad i ddysgu gan naturiaethwyr profiadol.

Gallech hefyd **ymuno â phartneriaeth natur leol abertawe** i rannu eich arbenigedd penodol a/neu wybodaeth leol. [Cysylltwch](#) â Chydlynnydd(Chydlynwyr) y Bartneriaeth Natur Leol am ragor o wybodaeth.

## Dolenni Ychwanegol ar gyfer adnoddau pellachional

- [Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol - Ein Gwaith - Bat Conservation Trust \(bats.org.uk\)](#)
- [Big Butterfly Count \(butterfly-conservation.org\)](#)
- [Grwpiau Lleol - The Mammal Society](#)
- [Morgannwg v.c. 41 - Botanical Society of Britain & Ireland \(bsbi.org\)](#)
- [Gower Ornithological Society - Cartref Grŵp Modrwyo Gŵyr \(gowerbirds.org.uk\)](#)
- [Morgannwg :: British Mycological Society \(britmycolsoc.org.uk\)](#)
- [Grwp Ystlumod Morgannwg - glambatclub@gmail.com](#)
- [Cyrsiau Astudiaethau Natur - Cyngor Astudiaethau Maes \(field-studies-council.org\)](#)
- [Hyfforddiant | The Species Recovery Trust | Salisbury](#)
- [Ddysgu | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wales \(welshwildlife.org\)](#)
- [Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Abertawe \(biodiversitywales.org.uk\)](#)
- [Achub Gwenoliaid Duon Abertawe - Gower Ornithological Society \(gowerbirds.org.uk\)](#)
- [SEWBRcC :: cofnodi](#)
- [Beth yw cofnod biolegol? | Biodiversity Projects \(fscbiodiversity.uk\)](#)
- [Ychwanegu cofnod - Rhestr Coed Hynafol \(woodlandtrust.org.uk\)](#)



# EGLURO

TERMAU TECHNEGOL

Daliwch ati i ddarllen am ddiffiniadau ac esboniadau rhai termau technegol a ddefnyddir yn LNRAP Abertawe.

## EGLURWR: BETH YW RHYWOGAETHAU, CYNEFINOEDD AC ECOSYSTEMAU?


Mae yna lawer o ddiffiniadau technegol ar gyfer **rhywogaeth** ond un o'r rhai symlaf yw grŵp o organebau (e.e., anifeiliaid, planhigion, ffyngau) sy'n gallu atgenghedlu'n naturiol gyda'i gilydd a chreu epil ffrwythlon. Dyma'r diffiniad biolegol o rywogaeth.

**Cynefin** yw ble mae rhywogaethau yn ymgartrefu. Mae cynefinoedd yn darparu'r holl amodau (amgylcheddol ac fel arall) sydd eu hangen ar rywogaeth i oroesi.


Rhywogaethau a'u rhyngweithio â'i gilydd, yn ogystal â'u cynefinoedd a'r amgylchedd ffisegol (e.e., aer, dŵr, pridd, tywydd) sy'n ffurfio **ecosystemau**.

Mewn termau technegol mae ecosystem yn gymuned fiolegol o rywogaethau sy'n rhyngweithio yn ogystal â'r amgylchedd ffisegol mewn ardal benodol. Mae rhannau biolegol a ffisegol yr ecosystem yn gysylltiedig trwy gylchredau maetholion a llif egni (e.e., pori neu ysglyfaethu).

Os yw cynefin yn gartref, yna ecosystem yw'r stryd/gymdogaeth lle mae'r cartref hwnnw.



EGLURWR: BETH YW BIOAMRYWIAETH?



## EGLURWR: BETH YW ISADEILEDD GWYRDD?

## CLYFAR A CHYNALIADWY

Gall datrysiadau IG helpu i arbed ynni, ac adnoddau naturiol, e.e., gall to bio solar (to gwyrdd gyda phaneli solar) roi hwb i'r manteision solar.



## AML-WEITHREDOL

Rhaid i IG ddarparu swyddogaethau ecosystem lluosog e.e., lliniaru llifogydd, cynyddu bioamrywiaeth, gwella llesiant, cynyddu inswleiddio adeiladau ac ati.



## BIOAMRYWIOL

Mae IG yn darparu bwyd a lloches i rywogaethau brodorol, dylent hefyd ddarparu cysylltedd (e.e., coridorau gwyrdd a phriffyrdd pryfed).



## ISADEILEDD GWYRDD (IG)

yw rhwydwaith o fannau gwyrdd **aml-swyddogaeth** (trefol neu wledig) sy'n darparu ystod o **fanteision i fywyd gwyllt a chymunedau**. Gall IG gynnwys cynefin naturiol, yn ogystal â nodweddion fel toeon gwyrdd a waliau gwyrdd. Gelwir gosodiadau IG hefyd yn atebion sy'n seiliedig ar natur.

## Wedi'i ADDASU AR GYFER NEWID HINSAWDD

gall IG helpu trefi a dinasoedd i addasu i newid yn yr hinsawdd drwy ddal dŵr i leihau llifogydd, darparu cysgod yn yr haf a gwella ansawdd aer a dŵr.

## IECHYD

Mae nodweddion IG yn creu ymdeimlad o le a lles, gan gefnogi ein hiechyd meddwl a chorfforol a chreu manau i chwarae a chymdeithasu.



Os ydych chi eisiau dysgu mwy am IG yn Abertawe yna gallwch ddarllen strategaeth (IG) Ardal Ganolog Abertawe: Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt.